



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 120/2013

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2013

# Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

- Cynulleidfa** Ymarferwyr ac addysgwyr proffesiynol eraill a staff cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddeunyddiau cyfarwyddyd i helpu ymarferwyr i weithredu asesu ar gyfer dysgu drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) ar draws y cwricwlwm.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Tîm Gweithredu'r FfLIRh  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 1707  
e-bost: Curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [dysgu.cymru.gov.uk](http://dysgu.cymru.gov.uk)
- Dogfennau cysylltiedig** Mae dogfennau i ategu gweithredu'r FfLIRh i'w gweld yn [learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy](http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy) gan gynnwys *Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2013) ar gyfer gweithredu'r FfLIRh.  
Mae dogfennau sy'n bodoli eisoes i ategu datblygu arferion asesu ar gyfer dysgu i'w gweld yn [www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/curriculuminwales/thinkingandassessmentforlearning/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/curriculuminwales/thinkingandassessmentforlearning/?skip=1&lang=cy) gan gynnwys *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) a *Pam y mae angen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>2. Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh)</b>	<b>4</b>
Nodweddion allweddol y FfLIRh	4
<b>3. Beth yw asesu ar gyfer dysgu?</b>	<b>6</b>
Elfennau allweddol asesu ar gyfer dysgu	7
<b>4. Defnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh gyda'i gilydd</b>	<b>9</b>
Sut ydych chi'n gwybod pan fydd asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh yn gweithio'n dda gyda'i gilydd?	11
<b>5. Datblygu ymagwedd ysgol gyfan gyson ac integredig at ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh gyda'i gilydd</b>	<b>13</b>
<b>6. Sut gallwch chi gynnwys rhieni a gofalwyr?</b>	<b>17</b>
<b>7. Defnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen</b>	<b>19</b>
<b>8. Defnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm</b>	<b>24</b>
Defnyddio'r FfLIRh i osod disgwyliadau dysgu a monitro dilyniant	27
Defnyddio sgiliau cwestiynu a 'siarad ar gyfer dysgu' i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd	29
Gwella adborth er mwyn rhoi sylw i sgiliau llythrennedd a rhifedd	33
Defnyddio'r FfLIRh i ddatblygu asesu gan gyfoedion a hunanasesu	35
Hyfforddi cyfoedion ymysg ymarferwyr i ddatblygu a sefydlu asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh	39
Defnyddio gwybodaeth o'r profion darllen a rhifedd mewn ffordd ffurfiannol	41
<b>9. Astudiaethau achos enghreifftiol o wersi cyfan</b>	<b>45</b>
Astudiaeth achos 1: Datblygu llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen	46
Astudiaeth achos 2: Datblygu llythrennedd mewn gwers hanes ym Mlwyddyn 5	52
Astudiaeth achos 3: Datblygu rhifedd mewn gwers dylunio a thechnoleg	57

Astudiaeth achos 4: Datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ym Mlynnyddoedd 5 a 6	61
Astudiaeth achos 5: Datblygu llythrennedd mewn gwers hanes ym Mlwyddyn 9	73
<b>10. Cyfeiriadau</b>	<b>78</b>
<b>11. Cydnabyddiaethau</b>	<b>80</b>

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod llythrennedd a rhifedd wrth wraidd dysgu ym mhob ysgol yng Nghymru. Adlewyrchwyd hyn yn y cynllun gweithredu 20 pwynt a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd ac yn *Gwella ysgolion – crynodeb gweithredol* (Llywodraeth Cymru, 2012)<sup>1</sup>. Mae'r rhain yn pwysleisio'r angen i bob ymarferydd<sup>2</sup> gymryd cyfrifoldeb am lythrennedd a rhifedd, a bod y sgiliau priodol ganddynt i addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'n bwysig bod gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) yn cael eu datblygu, er mwyn i'r disgywyliaid cyffredin am y safonau a ddisgwylir gan ddysgwyr gael eu rhannu ar draws y gymuned ysgol ehangach.

Wrth i'r FfLIRh gael ei weithredu, mae angen datblygu'r defnydd o asesu ar gyfer dysgu i wella sgiliau dysgwyr yn y ddau faes allweddol hyn, a'i atgyfnerthu ar draws pob pwnc.

Mae arferion ardderchog ym maes asesu ar gyfer dysgu eisoes wedi'u sefydlu mewn sawl ysgol yng Nghymru. Wrth i'r FfLIRh fod yn statudol, bydd integreiddio ymagwedd asesu ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm gyda chysylltiadau i ddilyniant mewn llythrennedd a rhifedd, fel yr amlinellir yn y FfLIRh, yn ofyniad allweddol i bob ymarferydd.

Mae arferion y FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu yn berthnasol i bob ymarferydd a dysgwr o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 9, a gall pawb elwa drwy ymgysylltu â nhw.

Mae sawl cyhoeddiad ar gael eisoes gyda rhestrau o offer a strategaethau asesu ar gyfer dysgu<sup>3</sup>. Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio asesu ar gyfer dysgu i'ch helpu i roi'r FfLIRh ar waith, ac i'r gwrthwyneb. Mae'n dwyn ynghyd enghreifftiau llwyddiannus o astudiaethau achos mewn ysgolion sydd ag arbenigedd asesywyr proffesiynol ac ymchwilwyr addysgol i arddangos sut y gall y FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu gael eu cysylltu i gefnogi ac ategu ei gilydd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau cyfarwyddyd wedi'u teilwra sy'n ceisio helpu ymarferwyr i roi'r FfLIRh ar waith.

<sup>1</sup> [learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121010executivesummary.pdf](http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/news/121010executivesummary.pdf)

<sup>2</sup> Mae'r term 'ymarferwyr' wedi cael ei ddefnyddio drwy'r ddogfen i gyfeirio at bob addysgwr proffesiynol sy'n gweithio mewn ysgolion. Credwn ei bod hi'n bwysig i bob athro/athrawes, cynorthwydd addysgu, staff cymorth eraill a gwirfoddolwyr ymgysylltu â'r FfLIRh.

<sup>3</sup> Mae rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u rhestru yng nghyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, e.e. *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* (2010) (gweler hefyd yr adran 'Cyfeirnodau' ar dudalen 78).

## 2. Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh)

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) yn ofyniad cwricwlwm statudol o fis Medi 2013, a bydd asesu yn erbyn y FfLIRh yn ofyniad statudol o fis Medi 2014.

Prif bwrpas y FfLIRh yw helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru, sef bod plant Cymru yn gallu datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog tra byddant yn yr ysgol. Felly mae'n hollbwysig bod datblygiad y sgiliau hyn yn cael eu cydblethu drwy'r cwricwlwm cyfan a bod ymarferwyr yn cydnabod y rôl bwysig sydd ganddynt o ran datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr.

Mae'r FfLIRh wedi cael ei gynllunio i ddarparu continwwm o ddatblygiad sy'n amlinellu'n glir y deilliannau disgwylidig blynyddol mewn llythrennedd a rhifedd. Dylid ei ddefnyddio fel offeryn i gynllunio'r cwricwlwm ac fel fframwaith asesu. Bydd cynllunio trawsgwricwlaidd gan ddefnyddio'r FfLIRh yn hanfodol i sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu sefydlu ar draws y cwricwlwm, a bod dilyniant pob dysgwr yn cael ei gynnal.

### Nodweddion allweddol y FfLIRh

Mae'r FfLIRh yn darparu **datganiadau o ddisgwyliadau** o 5 i 14 oed. Mae'r datganiadau o ddisgwyliadau wedi'u rhannu'n grwpiau blwyddyn sy'n amlinellu'r sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu datblygu tra eu bod nhw yn yr ysgol.

Mae tri llinyn i'r gydran llythrennedd (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) y FfLIRh.

- Llafaredd ar draws y cwricwlwm.
- Darllen ar draws y cwricwlwm.
- Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae pedwar llinyn i'r gydran rhifedd y FfLIRh.

- Datblygu ymresymu rhifyddol (llinyn sylfaenol).
- Defnyddio sgiliau rhif.
- Defnyddio sgiliau mesur.
- Defnyddio sgiliau data.

Mae rhagor o wybodaeth am y FfLIRh i'w gweld yn [learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=cy](http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?lang=cy)

**Mae pennaeth ysgol gynradd yn esbonio pwysigrwydd datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r FfLIRh ar draws y gymuned ysgol gyfan.**

'Mae cynllunio gofalus yn allweddol; rhaid cael pwrpas i bob gweithgaredd. Gyda phob tasg y gofynnwn i'r dysgwyr ei wneud rydyn ni'n meddwl y dylen nhw ddatblygu sgiliau o'r FfLIRh. Ond i'r staff, ac o ganlyniad i'r dysgwyr, rhaid deall y FfLIRh er mwyn gallu ei ddefnyddio'n hyderus. I ddatrys hyn, mae arddangosfa wal o'r FfLIRh gyda ni yn nosbarthiadau Blynyddoedd 5 a 6 yn ein hysgol gyda chysylltiadau ac enghreifftiau o'n gwaith parhaus. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein hatgoffa'n gyson am ofynion y FfLIRh ac mae hefyd yn gyfle i'r dysgwyr werthuso pa sgiliau y maen nhw wedi'u datblygu yn ystod tasgau arbennig. Mae hefyd yn gwneud i ni sylweddoli pa sgiliau y mae angen 'rhoi mwy o sylw' iddyn nhw, ac felly mae'n gwneud i ni feddwl am ddilysrwydd rhai tasgau. Mae'r arddangosfeydd wal wedi bod yn llwyddiannus iawn ac erbyn hyn mae ein dosbarthiadau Blynyddoedd 3 a 4 wrthi'n creu eu wal FfLIRh eu hunain.

Yn ein profiad ni, mae'n bwysig iawn bod pawb yn cymryd rhan yn y FfLIRh, gan gynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell dosbarth, er mwyn i bawb gael yr un disgwyliadau uchel.

Mae gwybodaeth am y FfLIRh hefyd wedi cael ei rhannu, yn ystod cyfarfodydd ac ymweliadau llywodraethwyr, a gyda rhieni a gofalmwyr yn ystod noson gwricwlaidd lle roedd y dysgwyr wedi gwneud cyflwyniadau gwahanol am eu gwaith a disgwyliadau'r FfLIRh.

Er mwyn sicrhau bod y sgiliau'n cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm, mae'n bwysig gwerthuso'r gweithgareddau rydyn ni'n eu rhoi i'r dysgwyr o ran y FfLIRh. Oes rhai llinynnau sy'n cael eu datblygu'n aml ac eraill ddim cymaint? Mae rhannu syniadau ac arfer da â'r staff yn bwysig hefyd.'

### 3. Beth yw asesu ar gyfer dysgu?

Ystyr asesu ar gyfer dysgu, a elwir hefyd yn arfer asesu ffurfiannol, yw'r defnydd effeithiol o wybodaeth am yr hyn a gafodd ei ddysgu a'i asesu i lywio addysgu a dysgu yn y dyfodol.

**“Asesu ar gyfer dysgu yw'r broses o geisio a dehongli tystiolaeth y gall dysgwyr a'u hymarferwyr ei defnyddio er mwyn penderfynu ble mae'r dysgwyr arni yn eu dysgu, ble mae angen iddynt fynd a'r ffordd orau o gyrraedd yno.”**

Assessment Reform Group, 2002

Mae ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol wedi cynhyrchu corff mawr o dystiolaeth sy'n dangos bod dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn gwella'r profiad ystafell ddosbarth i ddysgwyr ac ymarferwyr ac yn gwella cynnydd a chyflawniad dysgwyr.

Nid yw asesu ar gyfer dysgu yn rhywbeth newydd, ac mae'n debyg y bydd nifer o ymarferwyr da yn gwybod llawer amdano eisoes. Efallai nad yw rhai yn ei alw'n asesu ar gyfer dysgu hyd yn oed. Yn wir mae'n rhan annatod o addysgu bob dydd, yn broses barhaus sy'n tyfu drwy ddealltwriaeth gyffredin, addasu arferion a ffocws clir ar ddysgu.

Nid yw asesu ar gyfer dysgu effeithiol yn cael ei ddefnyddio yn yr un ffordd ym mhob ystafell ddosbarth. Mae'n ymagwedd at addysgu a dysgu lle mae'r dysgwyr yn ymgysylltu â'u taith ddysgu eu hunain. Mae dysgwyr yn gallu deall yr hyn y gallant ei wneud, gosod targedau datblygiadol i'w hunain yn seiliedig ar yr wybodaeth hon a chydabod, drwy'r dulliau gwahanol o asesu a myfyrio, a ydynt wedi cyrraedd y targedau hyn. Mae asesu yn ffurfiannol pan fydd yn llywio dysgu yn y dyfodol<sup>4</sup>.

Mae'n bwysig bod arferion asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu mewn ffordd weithredol ac nid mewn ffordd fecanyddol, a bod amser a chyfle gan athrawon i ddatblygu dealltwriaeth ddwfn a chyffredin o'r egwyddorion sylfaenol. Mae datblygu arferion asesu ar gyfer dysgu effeithiol yn gofyn am newid diwylliant yr ysgol gyfan a gall gymryd sawl blwyddyn i'w sefydlu. Nod y deunyddiau cyfarwyddyd hyn yw helpu ysgolion ac ymarferwyr i ymgysylltu ag ethos asesu ar gyfer dysgu, sef 'dysgu i ddysgu'.

<sup>5</sup> Mae rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u rhestru yng nghyhoeddiadau Llywodraeth Cymru sy'n bodoli eisoes, e.e. *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* (2010).



## Elfennau allweddol asesu ar gyfer dysgu

Nod asesu ar gyfer dysgu yw helpu ac ymrymuso dysgwyr i fod yn annibynnol. Nid yw'n golygu'r un peth ag asesu yn ei ystyr traddodiadol, sef casglu tystiolaeth i fesur cynnydd, drwy brofion a thasgau asesu. Mae asesu ar gyfer dysgu yn llawer mwy eang ac yn meithrin diwylliant o ddeialog, arsylwi, myfyrio ac adborth er mwyn gwella dysgu parhaus.

Gan edrych yn fras ar draws y llenyddiaeth, mae rhai elfennau allweddol wedi cael eu nodi sy'n sail gyson i arferion asesu ar gyfer dysgu effeithiol, sef:

- rhannu disgwyliadau dysgu a meini prawf llwyddiant
- ysgogi trafodaethau effeithiol yn y dosbarth
- rhannu adborth ffurfiannol
- datblygu dysgwyr fel adnoddau i helpu ei gilydd
- datblygu dysgwyr fel perchnogion eu dysgu eu hunain.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn cynnwys gofyn cwestiynau am ansawdd dysgu a bod yn barod i addasu a chyfoethogi addysgu a dysgu mewn ymateb i'r hyn sy'n cael ei ddysgu. Mae'n ymgorffori arferion asesu effeithiol ac yn gymwys i bob oedran, grŵp a chyfnod allweddol mewn unrhyw bwnc ar draws y cwricwlwm.

### **Mae athrawes Blwyddyn 5 yn myfyrio ar effaith defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn ei dosbarth fel a ganlyn.**

'Yn fy ystafell dosbarth fy hun, mae'n amlwg bod asesu ar gyfer dysgu wedi cael effaith bositif ar safonau, ond mae hefyd wedi cael effaith arwyddocaol ar les.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn gyfrwng effeithiol ar gyfer hyrwyddo a datblygu sgiliau addysg bersonol a chymdeithasol, gan ei fod yn canolbwyntio ar gydweithredu a helpu eich gilydd. Yn ei dro mae hyn yn bwydo yn ôl i ddatblygu sgiliau fel llythrennedd a rhifedd, tra yn y gorffennol byddai'r olaf efallai wedi cael ei ystyried yn fwy o fater annibynnol. Felly mae gwersi asesu ar gyfer dysgu sy'n cynnwys rhifedd, er enghraifft, wedi cael eu hailstrwythuro i ddarparu mwy o gyfle i ddysgwyr ryngweithio, ac o ganlyniad datblygwyd parodrwydd ymysg y dysgwyr i gymryd mwy o risgiau addysgol er mwyn symud eu dysgu yn ei flaen.

Mae creu 'lle', yn ystod ac yn arbennig ar ddiwedd gwersi, yn bwysig hefyd er mwyn myfyrio. Mae hyn yn meithrin cymuned o ddysgu lle mae'r dysgwyr yn cael cyfle i roi adborth effeithiol, monitro eu cynnydd eu hunain ac ystyried eu camau nesaf. Maen nhw'n deall bod y sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n cael eu datblygu yn drosglwyddadwy ac yn para am oes, ond ar yr un pryd maen nhw'n deall bod pynciau'r cwricwlwm wedi'u cysylltu â'i gilydd. Mae sawl dysgwr wedi dod ataf yn y gorffennol a sôn am sefyllfa y tu allan i'r ysgol lle maen nhw wedi gallu defnyddio'r sgiliau a'r strategaethau a ddysgwyd mewn cyd-destun hollol wahanol i'r hyn a geir yn yr amgylchedd ysgol.'

## 4. Defnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh gyda'i gilydd

Mae'r FfLIRh yn fframwaith ar gyfer addysgu a dysgu y gellir ei ddefnyddio ar gyfer asesu ffurfiannol.

Y nod yw cael ymarferwyr i ddefnyddio'r FfLIRh yn uniongyrchol at ddibenion asesu ffurfiannol. Mae'n darparu fframwaith dilyniant y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu disgwyliadau dysgu<sup>5</sup> a meini prawf llwyddiant a, thrwy ei ddefnyddio mewn cydweithrediad ag arferion asesu ar gyfer dysgu, bydd yn sefydlu dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant ymysg ymarferwyr a dysgwyr.

Drwy ddefnyddio datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh fel sail ac i lywio trafodaethau ac adborth asesu ar gyfer dysgu ar ddysgu parhaus, byddwch chi a'ch dysgwyr yn ymgyswrtu â dilyniant drwy'r FfLIRh wrth i chi ei ddefnyddio i fonitro dilyniant a chynllunio'r camau nesaf.

Dylai disgwyliadau llythrennedd a rhifedd gael eu hymgorffori, lle'n bosibl, yn y disgwyliadau dysgu ar gyfer pob gwrs. Ar gyfer pob datganiad FfLIRh dylech ystyried 'Sut bydd hwn yn edrych yng nghyd-destun y wers hon?', a bydd eich atebion yn ffurfio'r sail ar gyfer y disgwyliadau dysgu a'r meini prawf llwyddiant. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i sefydlu'r FfLIRh drwy'r diwylliant ystafell ddosbarth.

Gall datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh gael eu defnyddio i strwythuro eich arferion asesu ar gyfer dysgu ym mhob maes cwricwlwm; gyda'i gilydd gellir eu defnyddio i dynnu sylw at gyfleoedd i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc.

Un o'r heriau i ymarferwyr, o ran defnyddio'r FfLIRh ac asesu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, fydd sicrhau bod dysgwyr yn cael eu herio ym mhob pwnc. Er enghraifft, gall gwybodaeth dda am sgiliau rhifedd dysgwr gael ei defnyddio i lywio addysgu ac amcanion y dysgwr a'r camau nesaf mewn daearyddiaeth ar gyflymdra a lefel cyrhaeddiad sy'n ddigon heriol. Yn yr un modd, dylai'r sgiliau llythrennedd, sef llafaredd, darllen ac ysgrifennu, gael eu datblygu ar draws y cwricwlwm ar lefelau priodol er mwyn sicrhau cynnydd parhaus i bob dysgwr.

Drwy ddefnyddio'r FfLIRh fel hyn, bydd gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i lunio barn gadarn am gyrhaeddiad dysgwyr, deall cysyniadau ac egwyddorion dilyniant, a llywio eich cynllunio. Yn ei

<sup>5</sup> Mae'r term 'disgwyliadau dysgu' wedi cael ei ddefnyddio drwy'r ddogfen i gynnwys nodau/amcanion/bwriadau dysgu. Defnyddir y term yn y FfLIRh felly mae'n bwysig sicrhau cysondeb mewn terminoleg.

dro, bydd pob dysgwr yn dod i wybod sut y mae'n ei wneud a beth mae'n rhaid ei wneud i wella.

Dylai'r FfLIRh hefyd gael ei ddefnyddio i lywio eich asesiad blynyddol o sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Yn eich adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr, dylech ddefnyddio datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh i ddisgrifio cynnydd dysgwr, meysydd o gryfder a'r camau nesaf i'w datblygu. (Ni ddisgwylir i chi, ac ni fyddai'n briodol i chi, ddefnyddio'r FfLIRh i lunio un datganiad am y dysgwr ac a yw'n gweithio ar/yn uwch na/yn is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer ei oedran.)

Mae'n bwysig, felly, bod dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau, a sut y gallant gael eu cydnabod, yn cael ei datblygu ar draws y gymuned ysgol ehangach, a'i fod yn cynnwys deialog rhwng yr ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr. Drwy hyn, gall pob dysgwr gael y cymorth gorau i feithrin eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Bydd defnydd cyffredin o'r FfLIRh yn ategu parhad yn yr asesu, gan hwyluso trosglwyddo gwell rhwng blynyddoedd ac ysgolion. Bydd hefyd yn sicrhau bod asesiadau yn deg, yn ddibynadwy ac yn gyson ar draws dosbarthiadau, ysgolion a rhanbarthau, a bod cynnydd yn cael ei gefnogi ar gyfer pob dysgwr.

Manteision allweddol defnyddio'r FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu gyda'i gilydd yn cynnwys y canlynol.

- Mae'r FfLIRh yn darparu strwythur dilyniant clir i ddysgwyr o bob oedran a phob lefel.
- Mae dysgwyr ac ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth glir o'u cyraeddiadau presennol a'r camau nesaf (gan ddefnyddio iaith gyffredin y FfLIRh).
- Gall cynllunio trawsgwricwlaidd sicrhau cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd (h.y. nid dim ond mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg).
- Bydd y math hwn o 'feddwl cydgysylltiedig' ar draws y cwricwlwm yn cael effaith go iawn ar sgiliau llythrennedd a rhifedd pob dysgwr.
- Mae dysgwyr yn cael eu helpu i gyrraedd disgwyliadau llythrennedd a rhifedd a fydd yn sicrhau cyflawniad uwch mewn pynciau eraill.

### **Mae athro Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn cynghori y canlynol.**

'Rhannwch dechnegau a strategaethau ar draws yr ysgol gyfan i helpu i ddatblygu'r defnydd o'r FfLIRh a sicrhau bod cymaint o drosglwyddo â phosibl rhwng gwersi. Mae'r ymagwedd sgiliau darllen, y strategaethau cwestiynu, a'r gofynion a'r ffocws ar gywirdeb mewn mynegiant ysgrifenedig i gyd yr un mor berthnasol ym mhob maes pwnc, ac mae'r polisiau uchod yn helpu i wneud hynny'n amlwg.'

### **Dywedodd athrawes Blwyddyn 3 y canlynol.**

'Mae ein cydlynnydd mathemateg wedi pwysleisio i'r staff bwysigrwydd roi cyfle dilynol i ddysgwyr ymarfer y sgiliau y maen nhw wedi'u dysgu mewn gwersi mathemateg bob dydd ar draws y cwricwlwm; er enghraifft, bydd gwaith ar graffiau mewn gwर्स mathemateg yn gweld bod y sgil hwnnw'n cael ei ddefnyddio wrth gofnodi tymheredd ar gyfer dinas arbennig mewn daearyddiaeth.'

## **Sut ydych chi'n gwybod pan fydd asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh yn gweithio'n dda gyda'i gilydd?**

Mae sawl nodwedd o arferion asesu ar gyfer dysgu effeithiol y gellir arsylwi arnynt mewn gwersi ysgol. Pan fydd asesu ar gyfer dysgu yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol o fewn y FfLIRh yn eich ysgol efallai y gallech chi ddisgwyl gweld rhai neu bob un o'r pethau canlynol yn digwydd yn y gwersi.

- Bydd dysgwyr ac ymarferwyr yn gallu defnyddio'r cysyniadau a'r derminoleg o'r FfLIRh i ddisgrifio beth maent yn arsylwi arno yn yr ystafell ddosbarth.
- Bydd dysgwyr ac ymarferwyr yn gallu disgrifio sut beth yw perfformiad da ar lefelau gwahanol, gan ddefnyddio terminoleg o ddatganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh.
- Bydd dysgwyr yn gallu datblygu eu disgwyliadau dysgu eu hunain wedi'u cysylltu â'r FfLIRh ac yn cydnabod eu hanghenion dilyniant eu hunain.

- Bydd ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau mwy agored ac yn annog dysgwyr i siarad yn yr ystafell ddosbarth.
- Bydd ymarferwyr yn gwella'r adborth llafar ac ysgrifenedig y mae'r dysgwyr yn ei gael.
- Caiff dysgwyr eu hannog i asesu cyfoedion a hunanasesu yn gysylltiedig â'r FfLIRh.
- Bydd ymarferwyr yn hyfforddi cyfoedion er mwyn gwella dealltwriaeth o asesu ar gyfer dysgu o fewn y FfLIRh.
- Bydd ymarferwyr yn gallu defnyddio gwybodaeth o brofion darllen a rhifedd mewn ffordd ffurfiannol, a chael effaith ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc.

## 5. Datblygu ymagwedd ysgol gyfan gyson ac integredig at ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh gyda'i gilydd

Gan fod y FfLIRh yn ofyniad statudol, bydd rhaid i ysgolion ystyried i ba raddau y mae llythrennedd a rhifedd wedi'u sefydlu ar draws y cwricwlwm a bydd mapio sgiliau a chyd-destunau cwricwlaidd ar draws yr ysgol yn hollbwysig. Mae'n rhaid i sgiliau llythrennedd a rhifedd fod yn brif ffocws ar gyfer cynllunio ym mhob cyd-destun pwnc ac felly mae cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd glir a chydlynol yn hanfodol.

Bydd datblygu polisi ysgol gyfan yn ategu dealltwriaeth gyffredin o lefelau perfformiad, yn seiliedig ar y FfLIRh, ymysg ymarferwyr o fewn ac ar draws ysgolion a sectorau. Bydd hefyd yn sicrhau cydraddoldeb i bob dysgwr.

### **Mae'r dirprwy bennaeth mewn un ysgol gynradd yn disgrifio ei ymagwedd fel a ganlyn.**

'Gweithredu'r FfLIRh yw'r prif ffocws yn ein cynllun gwella'r ysgol. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal archwiliad o'r hyn rydyn ni'n ei wneud nawr o ran y FfLIRh, gan groesgyfeirio ein hysgolion sgiliau â disgwyliadau'r FfLIRh. Cafodd system newydd ei chyflwyno ar gyfer codi safonau mewn ysgrifennu ac mae hyn yn cyd-fynd yn berffaith â'r FfLIRh. Mae pob hanner tymor yn canolbwyntio ar genre arbennig, e.e. adrodd. Yna rydyn ni'n treulio cryn dipyn o amser yn astudio, darllen, trafod ac ysgrifennu amrywiaeth o ddeunyddiau ar draws y cwricwlwm sy'n gysylltiedig â'r genre arbennig hwnnw. O ganlyniad, mae ein dysgwyr wedi cynhyrchu darnau o waith o safon uchel drwy gael eu trwytho mewn un genre. Mae pob agwedd allweddol ar y gydran llythrennedd o'r FfLIRh yn cael ei hastudio – ystyr a phwrpasau, strwythur a threfn, iaith a llawysgrifen, gramadeg, atalnodi a sillafu.

Er ein bod yn weddol hyderus gyda'r fathemateg drefniadol y bwriad yw canolbwyntio ar fathemateg ymresymu fel rhan o gynllun gwella'r ysgol y flwyddyn nesaf. Fel staff rydyn ni hefyd am ystyried asesu ac adrodd i rieni a gofalwyr ar ddisgwyliadau'r FfLIRh a sut y maen nhw'n cyd-blethu â lefelau gwahanol y cwricwlwm cenedlaethol.'

Gall ysgol fynd ati i sefydlu'r FfLIRh mewn sawl ffordd wahanol. Dyma ddwy enghraifft.

1. Mae rhai ysgolion a grwpiau blwyddyn yn ei chael hi'n haws cael gwersi sy'n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd a rhifedd arwahanol y gellir eu cymhwyso i bynciau eraill, gan roi'r mewnbwn cynllunio ar eu cyfer i drawstoriad o arweinwyr pwnc. Er enghraifft, gall un o ddisgwyliadau darllen ar draws y cwricwlwm y FfLIRh sef *dilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil* (Blwyddyn 7, Darllen a deall) gael ei gymhwyso i wers celf lle mae'r dysgwyr yn ymchwilio i gorff o waith artist arbennig. Neu, gallai disgwyliad rhifedd y FfLIRh sef *llunio graffiau i gyflwyno data, gan gynnwys diagramau gwasgariad er mwyn ymchwilio i gydberthynas* (Blwyddyn 8, Defnyddio sgiliau data) gael ei ddefnyddio mewn gwers daearyddiaeth lle mae'r dysgwyr yn ymchwilio i batrymau poblogaeth.
2. Gallai rhai ysgolion fabwysiadu ymagwedd wahanol drwy adeiladu pynciau neu themâu o gwmpas sgiliau a defnyddio pynciau ar draws y cwricwlwm i'w cyflawni. Er enghraifft, mae ysgol babanod yn penderfynu cynnal diwrnod her sgiliau, lle mae sgil arwahanol yn cael ei ddefnyddio ym mhob pwnc ar y diwrnod hwnnw. Er enghraifft, gall disgwyliadau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm y FfLIRh sef *defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu* (Blwyddyn 1, Iaith) a *defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol* (Blwyddyn 2, Iaith) gael eu defnyddio ym mhob llinyn o'r Cyfnod Sylfaen.

Drwy ddefnyddio'r FfLIRh fel sail ar gyfer trafodaethau am ddysgu, i lywio arferion asesu ar gyfer dysgu yn y dosbarth, byddwch yn ymgysgu â'r dilyniant disgwyliedig a amlinellir yn y FfLIRh a bydd gweithredu ar hynny yn cael ei sefydlu'n naturiol yn eich arferion.

Mae'r FfLIRh yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm. Bydd cynllunio cydweithredol, ac asesu, hefyd yn helpu ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr i gydnabod y lefelau disgwyliedig o sgiliau llythrennedd a rhifedd ac yn sicrhau bod y lefelau hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu o fewn meysydd pwnc gwahanol.



**Mae un ysgol yn esbonio sut y mae wedi sicrhau bod y FfLIRh wedi cael ei ymgorffori yn ei gynlluniau ysgol gyfan.**

'Mae staff yn ein hysgol wedi cael eu rhannu'n ddwy gymuned dysgu proffesiynol (CDP) ar gyfer llythrennedd a rhifedd, gydag un athro neu athrawes o bob grŵp blwyddyn ym mhob CDP. Mae pob grŵp yn cael ei arwain gan yr arweinwyr pwnc Saesneg a mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen a'r cyfnod allweddol. Bydd aelodau pob CDP yn gyfrifol am gynnal archwiliadau o fewn eu grŵp blwyddyn a gwneud y newidiadau angenrheidiol i gynllunio, ochr yn ochr ag arweinwyr pwnc perthnasol a'r athro neu athrawes arall yn eu grŵp blwyddyn. Bydd un o'r uwch aelodau staff yn goruchwyllo'r ddau CDP ac yn sicrhau bod cymedroli'n digwydd fel bod cynnydd yn cymryd lle yr un pryd.'

**Mewn ysgol arall, mae llais y dysgwyr yn cael ei ystyried mewn cynllunio trawsgwricwlaidd.**

'Er bod nifer o ysgolion yn gwranddo ar ddysgwyr, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bellach i gydlynwyr Saesneg (neu Gymraeg) a mathemateg wrando y tu allan i'w meysydd eu hunain; er enghraifft, o fewn ein hysgol ni mae'r cydlynnydd Saesneg wedi gwranddo ar ddysgwyr mewn meysydd megis hanes a gwyddoniaeth.'

Mae gweithredu'r FfLIRh yn effeithiol ac arferion asesu ar gyfer dysgu da yn gweddu ac yn ategu ei gilydd. Bydd defnyddio'r FfLIRh fel fframwaith asesu yn rhoi strwythur a chysondeb i ddatblygiad asesu ar gyfer dysgu drwy'r ysgol gyfan ar draws y cwricwlwm. Yn ei dro, bydd datblygu ymagwedd ysgol gyfan at asesu ar gyfer dysgu yn helpu i sefydlu'r FfLIRh yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Gall ymddangos yn haws i ysgol babanod, iau neu gynradd allu cynnal ymagwedd ysgol gyfan gyson at y FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu, gan fod nifer y staff ysgol yn llai fel arfer ac yn gyffredinol mae un ymarferydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cwricwlwm a ddarperir ym mhob pwnc. Fodd bynnag, mae'n bosib gweithredu hyn yn llwyddiannus mewn ysgolion uwchradd fel y gwelir ar y dudalen nesaf.

**Mae un ysgol uwchradd yn disgrifio sut y mae wedi datblygu arferion asesu ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm yng nghyd-destun gweithredu'r FfLIRh.**

'Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wrth wraidd cynllunio gwersi ar draws pob maes pwnc a dyma'r hyn sydd i'w gyfrif am y dysgwyr sy'n gwneud y cynnydd mwyaf. Er mwyn ceisio cael mwy o gysondeb yn y maes hwn, rydyn ni wedi datblygu ein fersiwn ein hunain o'r 'Pecyn Cymorth Athrawon' gyda 22 o adnoddau wedi'u dewis yn ofalus sy'n ceisio datblygu uwch sgiliau cyfathrebu a meddwl dysgwyr. Cafodd pob aelod o staff y pecyn cymorth i'w helpu i weithredu ar yr agenda asesu ar gyfer dysgu; cawson nhw gyfle hefyd i gymryd rhan mewn gweithdai trawsgwricwlaidd i archwilio sut y gall defnyddio adnoddau o'r fath gael effaith gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau dysgwyr. Gyda'i gilydd roedd staff wedi gwyllo fideo o wersi 'da' ac ystyried sut y gallai elfennau o'r pecyn cymorth sicrhau safonau a chynnydd ardderchog ymysg dysgwyr. Cafodd yr agenda datblygiad proffesiynol parhaus ysgol gyfan hwn ei gefnogi gyda hyfforddiant HMS hefyd. Cafodd pob gweithdy HMS ei gynnal i bob aelod o staff ar draws pob maes cwricwlaidd.'

**Mae athrawes Blwyddyn 9 yn yr un ysgol yn disgrifio sut, ochr yn ochr â hyfforddiant ac arsylwi ar wersi, mae dealltwriaeth dysgwyr yn cael ei hadeiladu ymhellach a'i chefnogi drwy ei gweithdrefnau hunanwerthuso.**

'Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso sydd gennym yn eu lle yn yr ysgol wedi dangos i ba raddau y mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Yn benodol roedd craffu ar waith dysgwyr drwy'r ysgol gyfan ym Mlynnyddoedd 8, 9, 10 ac 11 wedi canolbwyntio ar safonau mewn llythrennedd a rhifedd a'i gysylltu â disgwyliaidau'r FfLIRh. Mae'r broses craffu ar lyfrau yn creu hapsampl o waith dysgwyr o bob maes cwricwlaidd sy'n cael ei werthuso a'i graffu gan (a) timau adran, (b) deiliaid swydd cyfrifoldebau addysgu a dysgu ym mhob adran, (c) uwch arweinwyr, ac yn olaf gan (ch) arweinwyr pwnc ar draws pob maes cwricwlaidd fel ymarfer ar y cyd. Mae gwaith dysgwyr yn cael ei graffu yn ôl y meini prawf canlynol: sgiliau ysgrifennu, sgiliau darllen, sgiliau rhifedd a TGCh, sgiliau meddwl, marcio ac asesu, a chynnydd dysgwyr. O'r llinyn hwn o hunanwerthuso, ynghyd ag arsylwadau gwersi, gallwn lunio barn am effaith asesu ar gyfer dysgu o ran datblygu sgiliau dysgwyr.'

## 6. Sut gallwch chi gynnwys rhieni a gofalwyr?

Dangoswyd bod cynnwys rhieni a gofalwyr yn addysg eu plant yn gwella cyflawniad a lles dysgwyr. Mae dysgwyr yn cael eu cynorthwyo orau a'u hysbrydoli i ddysgu mewn diwylliant lle mae'r gymuned ysgol, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, yn cymryd rhan mewn deialog gweithredol ac yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau dysgu.

Mae cyflwyno'r FfLIRh o fis Medi 2013 yn golygu y bydd angen i ysgolion ac ymarferwyr roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr ar sut y bydd dysgwyr yn profi llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, sut y caiff disgwyliadau dysgu llythrennedd a rhifedd eu sefydlu ar draws y cwricwlwm, sut y caiff cynnydd yn erbyn y FfLIRh ei fesur, a sut y bydd yr ysgol yn defnyddio ymagwedd asesu ar gyfer dysgu i sicrhau pontio llyfn a llwyddiant parhaus yn yr addysgu.

Mae sawl ffordd y gall rhieni a gofalwyr gael eu hannog i ymgysylltu â'r FfLIRh. Yn gyntaf, dylai rhieni/gofalwyr gael gwybod am y canllawiau sy'n cael eu cynhyrchu'n benodol iddynt. Efallai yr hoffech gynnwys cyfarfod rhieni/gofalwyr i siarad am hyn a'r newidiadau a sut rydych yn bwriadu gweithredu'r FfLIRh yn eich ysgol chi. Gall gwahodd rhieni/gofalwyr i'r ystafell dosbarth er mwyn iddynt allu gweld gwaith eu plant a sut mae hyn yn cysylltu â'r FfLIRh fod yn ysgogiad da ar gyfer trafodaeth, yn yr ysgol ac yn y cartref. Ceisiwch eu hannog i ymgyfarwyddo â'r FfLIRh drwy eu cyfeirio at adroddiadau a gohebiaeth arall rhwng y cartref a'r ysgol. Ceisiwch annog dysgwyr i siarad â'u rhieni/gofalwyr gartref am y FfLIRh a phasgiliau FfLIRh y maent yn eu dysgu mewn pynciau eraill.

Bydd datblygu'r deialog hwn gyda rhieni/gofalwyr am y ffordd y caiff y FfLIRh ei ddefnyddio yn yr ysgol yn helpu i sefydlu dealltwriaeth ar draws y gymuned ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi'r canllaw rhieni/gofalwyr *Sut oedd yr ysgol heddiw?*<sup>6</sup> (2013). Ei nod yw rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr a fydd yn eu galluogi a'u hannog i gymryd rhan weithgar yn addysg eu plant.

Dylai ysgolion ac ymarferwyr ystyried sut y gallant annog y defnydd o'r ddogfen hon a'i gwella drwy gael deialog pellach â rhieni/gofalwyr yng nghyd-destun y FfLIRh.

<sup>6</sup> [www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/1303-how-was-school-today-primary-spread-cy.pdf](http://www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/1303-how-was-school-today-primary-spread-cy.pdf)

### **Mae pennaeth ysgol gynradd yn rhannu ei strategaeth ar gyfer cynnwys rhieni/gofalwyr.**

'Yn ein hysgol ni rydyn ni wedi cydweithio'n agos â rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr i rannu'r sgiliau, y strategaethau a'r addysgeg sydd wedi cael eu sefydlu'n llawn gan staff. Rydyn ni wedi cynnal 'Arddangosfa Dysgu Effeithiol' lle cafodd prosiectau sgiliau o bob grŵp blwyddyn o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 eu harddangos. Rydyn ni hefyd wedi dangos 'Strategaethau Dysgu Effeithiol' i rieni a gofalwyr yn ystod gwersi mewn bore agored. Hefyd, mae nosweithiau agored wedi dathlu safon uchel y gwaith y mae'r dysgwyr yn ei gynhyrchu trwy'r ysgol gyfan a'r strategaethau dysgu effeithiol a ddefnyddiwn fel tîm.'

### **Mae'r un ysgol hefyd yn annog rhieni a gofalwyr i gymryd rhan yn y gwersi.**

'Fel ysgol, rydyn ni'n cael cymorth a chefnogaeth rhieni, neiniau a theidiau, neu ofalwyr sy'n barod i helpu a chynnig eu harbenigedd yn y dosbarth. Yn achos y gweithgaredd 'Adeiladu cydran ar gyfer capsawl lleuad Apollo 13' (gweler 'Astudiaeth achos 4' ar dudalen 61), roedd un taid wedi cynnig ei arbenigedd a helpu'r ysgol gyda nifer o brosiectau gwyddoniaeth/technoleg.'

## 7. Defnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen

Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru ac mae'n cynnwys saith Maes Dysgu. Nod y FfLIRh yw bod yn fframwaith ar gyfer pob dysgwr 5 i 14 oed, felly bydd disgwyl i ymarferwyr ei sefydlu wrth addysgu'r Cyfnod Sylfaen i blant pump i saith oed.

Mae'n bwysig pwysleisio mai'r nod yw ymgorffori'r FfLIRh ochr yn ochr ag arferion da presennol yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd rhaid addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd a'u hasesu trwy bob un o saith Maes Dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Ni fwriedir i'r FfLIRh gymryd lle cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn hytrach, bwriedir i ddisgwyliadau'r FfLIRh gael sylw a'u haddysgu drwy'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen presennol a dylid eu hymgorffori mewn asesiadau parhaus a monitro dilyniant.

Mae'r FfLIRh a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn hollol gydnaws a gall y ddau gael eu hategu drwy ddilyn ymagwedd asesu ar gyfer dysgu, sy'n deillio'n naturiol o arferion y Cyfnod Sylfaen. Gall llythrennedd a rhifedd gael eu datblygu ym Meysydd Dysgu y cwricwlwm gwahanol, hyd yn oed gyda phlant ifanc. Gellir gwneud hyn yn bennaf drwy chwarae ac archwilio sut i wneud gweithgareddau bob dydd.

Y cam cyntaf y gallech ei gymryd yw trafod ac archwilio'r FfLIRh gyda chydweithwyr yn y Cyfnod Sylfaen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth yw pob un o'r disgwyliadau dysgu – mae'n bwysig cael dealltwriaeth o sut y mae'r disgwyliadau hyn yn edrych yn nosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 – a gweld ble rydych yn eu haddysgu eisoes.

Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Cyfnod Sylfaen efallai yr hoffech gynllunio gwersi, pynciau a gweithgareddau gyda chydweithwyr. Bydd o fudd i bontio eich dealltwriaeth gyda chydweithwyr o grwpiau blwyddyn eraill. Bydd cydweithredu ar draws yr ysgol gyfan ac ar draws cyfnodau yn hanfodol i weithredu'r FfLIRh yn llwyddiannus a sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin yn cael ei datblygu rhwng pob ymarferydd a phlant<sup>7</sup>.

<sup>7</sup> Mae'r astudiaethau achos yn yr adran hon wedi'u haddasu o adroddiad 2011 Estyn *Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen: Gwerthuso gweithrediad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwe blwydd oed mewn ysgolion cynradd, gyda sylw arbennig i lythrennedd* (gweler yr adran 'Cyfeiriadau' ar dudalen 78).

**Mae arweinydd pwnc Cymraeg mewn ysgol gynradd yn wedi disgrifio sut mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu rhoi ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.**

'Roedden ni am sicrhau y bydden ni'n gwella safonau mewn sgiliau llythrennedd plant a'u hagwedd at ddysgu. Roeddwn i wedi cytuno ar feini prawf clir ar gyfer gwerthuso safonau a darpariaeth gyda'm cydweithwyr.

Roedd hyn yn cynnwys arwain sesiynau hyfforddi ar arfer da i'r staff cyfan fel bod pob ymarferydd, gan gynnwys staff cymorth, â dealltwriaeth glir. Roeddwn i hefyd wedi dangos gwersi ac wedi hyfforddi staff. Roedd trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol wedi nodi anghenion hyfforddi ymarferwyr. Roedd cymorth mewnlol a chysiau allanol wedi helpu gyda'u datblygiad proffesiynol.

Mae pob un o'r athrawon yn ein hysgol yn cadw cofnodion gofalus o gynnydd plant drwy eu harsylwadau a'u hasesiadau bob hanner tymor. Ar ôl pob adolygiad, wnes i gwrdd â nhw i archwilio deilliannau dysgu a chyraeddiadau'r plant. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, roedden nhw wedi nodi beth oedd wedi gweithio'n dda ac wedi cytuno ar welliannau. Roedd cyflwyno'r strategaethau newydd a'r adnoddau ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd yn ffocws ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith y tro nesaf.'

Rhaid sefydlu'r FfLIRh ym mhrofiadau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bob gwers a gweithgaredd gynnwys disgwyliadau dysgu sydd wedi'u cysylltu â'r FfLIRh. Gan fod disgwyliadau'r FfLIRh yn eang mae sawl ffordd o wneud hyn. Un ffordd yw mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar bwnc at addysgu.

**Mae athrawes Blwyddyn 2 yn disgrifio sut y cafodd sgiliau llythrennedd eu sefydlu ar draws y cwricwlwm drwy ddefnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu i gefnogi hyn.**

'Roedd ein plant yn mwynhau stori'r *Tri Bwch Gafr*. Fel rhan o'u gwaith, roedden nhw wedi creu posteri, gwneud mygydau ac ysgrifennu sgrïpt drama o'r stori. Defnyddiwyd y man bach glaswelltog â dec yn yr awyr agored i ddramateiddio'r stori a gosodwyd y posteri 'yn eisiau' roedd y plant wedi'u gwneud. Gan wisgo'r mygydau, roedd y plant wedi cymryd eu tro i actio'r stori. Pan oedd un grŵp yn actio, y plant eraill oedd y gynulleidfa. Roedden nhw eisoes wedi paratoi taflenni asesu cyfoedion oedd yn cynnwys meini prawf llwyddiant a fyddai'n eu helpu i farnu ansawdd y ddrama. Roedden nhw wedi gwerthuso pa mor dda roedd y plant yn ymgymryd â rolau'r gwahanol gymeriadau, darllen gwybodaeth yn gywir, siarad yn glir a chydweithio â'i gilydd.

Roedd yr amgylchedd awyr agored yn lleoliad delfrydol ar gyfer y ddrama a gyda meinciau daeth yn theatr naturiol. Gallai'r 'geifr' trotian yn effeithiol ar y dec ac roedd yr 'ellyll' wedi cuddio y tu ôl i wal isel.

Daeth yr holl waith roedd y plant wedi'i wneud dros gyfnod ar y stori, ysgrifennu'r posteri a pharatoi'r sgrïpt, at ei gilydd yn y gweithgaredd hynod werth chweil hwn. Roedd defnyddio'r awyr agored wedi ychwanegu dimensiwn perthnasol, diddorol a difyr at addysg y plant. Roedd y plant wedi dysgu sut i addasu'r ffordd roedden nhw'n siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa, taflu eu lleisiau a threfnu eu hysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau at wahanol ddibenion. Roedd y gweithgaredd wedi'u helpu i ddeall y cysylltiadau rhwng darllen ac ysgrifennu hefyd.'

Yn yr enghraifft hon mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu sy'n cynnwys pob un o'r plant ac asesu gan cyfoedion yn amlwg. Mae enghreifftiau o rai o ddatganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh y gellir eu mapio i weithgareddau'r Cyfnod Sylfaen wedi'u nodi ar y tabl ar y dudalen nesaf.

	<b>Elfen</b>	<b>Agwedd</b>	<b>Disgwyliad dysgu</b>	<b>Gweithgaredd wedi'i fapio</b>
<b>Llafaredd ar draws y cwricwlwm</b>	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig.</li> </ul>	Actio'r stori.
		Gwranddo	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir.</li> </ul>	Ysgrifennu sript drama.
		Cydweithio a thrafod	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad.</li> <li>Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.</li> </ul>	Pob gweithgaredd.
<b>Darllen ar draws y cwricwlwm</b>	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dwyn i gof ac ail-ddweud naratifau a gwybodaeth o destunau gan gynnwys rhai manylion.</li> </ul>	Creu posteri, ysgrifennu sript drama.
		Ymateb a dadansoddi	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dangos dealltwriaeth a mynegi barn am iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau.</li> </ul>	Pob gweithgaredd.
<b>Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm</b>	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgrifennu at ddibenion gwahanol.</li> </ul>	Creu posteri, ysgrifennu sript drama.

Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Tachwedd 2013  
Dogfen ganllawiau rhif: 120/2013



Mae'n hollbwysig bod hyd yn oed plant ifanc iawn yn cael cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Un ffordd o reoli hyn yw cynnwys y plant cymaint â phosibl wrth benderfynu beth maent yn mynd i'w ddysgu, beth yw eu targedau ar gyfer dilyniant a sut y maent yn bwriadu cyrraedd y targedau hyn.

### **Mae ysgol babanod yn disgrifio sut y maen nhw wedi rhoi cyfrifoldeb i'w plant am eu dysgu eu hunain.**

'Ar ddiwedd pob tymor, gofynnwn i blant am eu syniadau ynglŷn â'r gwaith yr hofffen nhw ei wneud y tymor canlynol. Yn nhymor y gwanwyn, y pwnc a ddewiswyd oedd 'Y tu hwnt i'r cwpwrdd dillad' oherwydd roedd y plant yn gyffrous iawn ac yn dangos llawer o ddiddordeb yn stori Narnia. Gyda'i gilydd, roedden ni wedi cynllunio'r mathau o bethau roedden nhw am ei gynnwys, fel man chwarae rôl Narnia ac ystafell ysgrifennu 'Llyn wedi Rhewi'.

I gefnogi'r addysgu rydyn ni wedi disodli ein cynlluniau gwaith sy'n cael eu harwain gan gynnwys gyda dysgu yn seiliedig ar sgiliau sy'n cyfeirio at ddisgwyliadau'r FfLIRh. Mae'r rhain yn nodi'r sgiliau craidd yn ogystal â'r sgiliau penodol ar gyfer meddwl, cyfathrebu a rhifedd. Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys cynllunio ar gyfer darpariaeth barhaus a gwell. Mae cynlluniau'n cynnwys bwriadau dysgu penodol iawn i'r plant a ffocws clir ar ddatblygu sgiliau. Er bod y cynlluniau wedi'u strwythuro, maen nhw'n ddigon hyblyg i ni allu eu haddasu'n rhwydd i ateb diddordebau ac anghenion dysgu'r plant. Mae sicrhau bod plant yn cael cyfle i gychwyn eu dysgu eu hunain yn ganolog i ymagwedd ein hysgol.

Mae plant yn cael cyfle i symud yn rhwydd o gwmpas yr ystafell ddosbarth a gallan nhw fynd i'r awyr agored ar eu pennau eu hunain.'

Mae canllawiau pellach ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm i'w gweld yn nogfennau 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru – *Datblygiad Mathemategol a Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (gweler yr adran 'Cyfeiriadau' ar dudalen 78).

## 8. Defnyddio asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Mae'r FfLIRh yn darparu fframwaith cyffredinol sy'n ceisio helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gwneud cynnydd da mewn llythrennedd a rhifedd. Bydd gweithredu'r FfLIRh yn cael ei seilio ar asesu ar gyfer dysgu cadarn, gydag ymarferwyr yn dod yn fwy cyfarwydd â'r FfLIRh drwy fonitro'n barhaus cynnydd pob dysgwr mewn llafaredd, darllen, ysgrifennu, rhif, sgiliau mesur a data, ac ymresymu rhifyddol drwy gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh.

Cyn bod hyn yn digwydd, bydd rhaid i chi gytuno â'ch cyd-ymarferwyr sut y bydd elfennau ac agweddau amrywiol ar y FfLIRh yn edrych yn ymarferol yn eich ystafell ddosbarth.

Mae cynllunio ac archwilio'r cwricwlwm ar draws yr ysgol, a mapio yn erbyn y FfLIRh yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus gwerthfawr i ymarferwyr ac yn sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r FfLIRh yn cael ei chynnal ar draws athrawon mewn gwahanol bynciau a gwahanol grwpiau oedran.

Gall staff ddewis datganiadau o ddisgwyliadau a thrafod yn fanwl sut, mewn gwahanol gyd-destunau gwersi, y byddai'r sgiliau a ddewiswyd yn cael eu cydnabod. Yn ei hanfod, dyma'r broses fydd yn eich helpu i dorri'r datganiadau yn sgiliau cyfansoddol ac adnabod meini prawf llwyddiant.

Gofynnwch y canlynol i'ch hun.

- Pa newidiadau ydych chi'n disgwyl o ganlyniad i'r wers hon?
- Pa ddangosyddion y gellir eu mesur neu eu harsylwi fydd yn ei gwneud hi'n amlwg bod y newidiadau hyn wedi digwydd?

Mae'r meini prawf llwyddiant ar gyfer unrhyw ddarn o ddysgu yn crynhoi'r camau allweddol neu'r 'cynhwysion' y mae eu hangen ar y dysgwyr i gyflawni'r bwriad dysgu. Meddyliwch am y prif bethau rydych yn disgwyl i'r dysgwr ei wneud neu ei gynnwys neu ganolbwyntio arnynt a nodwch gysylltiadau â'r FfLIRh.

Mae asesu gyfer dysgu yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd dysgwyr yn gwella mwyaf os ydynt yn deall nod eu dysgu, ble ydynt mewn perthynas â'r nod hwn a sut y gallant gyflawni'r nod (neu gau'r bwll yn eu gwybodaeth). Nid yw'n rhywbeth ychwanegol neu'n brosiect; mae'n ganolog i addysgu a dysgu effeithiol.

**Mewn ysgol gynradd, mae athro yn esbonio sut y mae'n cynnwys dysgwyr wrth sefydlu'r FfLIRh ar draws y cwricwlwm.**

'Mae gwrando'n effeithiol ar y dysgwyr yn llywio cynllunio ac yn datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn ein hysgol ni, mae barn y dysgwyr yn cael ei gwerthfawrogi. Mae marcio, teithiau dysgu, sesiynau llawn a sesiynau trafod i gyd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sefydlu ein gwybodaeth o'r FfLIRh a datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.'

Drwy ddefnyddio'r FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu i gefnogi ei gilydd, defnyddio terminoleg y FfLIRh i ffurfio disgwyliadau dysgu a meini prawf llwyddiant, bydd dysgwyr hefyd yn fwy ymwybodol o 'sut mae dilyniant yn edrych' mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Bydd dewis disgwyliadau'r FfLIRh fel hyn, i drafod a datblygu eu dealltwriaeth o lwyddiant o fewn ystod o dasgau trawsgwricwlaidd, yn rhoi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i'r dysgwyr allu gwerthuso ac asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

**Mae athrawes Blwyddyn 3 yn siarad am bwysigrwydd bod yn gyfarwydd â manylion y FfLIRh er mwyn gallu datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.**

'Mae'n hollbwysig bod gan bob aelod o staff wybodaeth dda iawn o'r FfLIRh ac yn anelu at bob nod yn y Cyfnod Sylfaen/cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n rhaid iddyn nhw asesu'n barhaus ar eu pennau eu hunain.'

**Mae un athro Blwyddyn 5 yn disgrifio sut y gall asesu ar gyfer dysgu gael ei ddefnyddio i integreiddio'r FfLIRh ar draws y cwricwlwm.**

'Er nad oedd yr hyfforddiant asesu ar gyfer dysgu a gefais yn ymwneud yn benodol â llythrennedd a rhifedd, mae ei natur gyffredinol yn golygu bod modd ei addasu'n hawdd ar draws ystod enfawr o gyd-destunau. Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn gymwys i lythrennedd a rhifedd, felly mae'n gwneud synnwyr y bydd eu llwybrau yn croesi'n naturiol (ac mewn ffordd fuddiol) mewn sefyllfaoedd cwricwlaidd.

Er enghraifft, mae ceisio annog dysgwyr i benderfynu ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer defnyddio sgiliau rhifedd mewn cyd-destun trawsgwricwlaidd yn caniatáu iddyn nhw berchen ar eu dysgu a chynyddu annibyniaeth yn ystod y dasg. Mae adolygiad dilynol o lwyddiant yn erbyn y meini prawf hyn, boed drwy hunanasesu, asesu gan gyfoedion neu adborth syth gan athrawon, yn helpu'r dysgwr i ddeall 'ble ydyn nhw nawr' a 'ble mae angen iddyn nhw fod'.

Mae ein hamcanion gwrs yn cael eu gwahanu oddi wrth gyd-destun y wers, sy'n golygu bod dysgwyr yn gallu ac yn cael eu hannog i ddeall natur drosglwyddadwy y sgiliau sy'n cael eu dysgu. Ein nod yw canolbwyntio meddwl dysgwyr ar bob un o'r sgiliau fel endidau ar wahân a allai fod yn ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd eraill (o fewn a'r tu allan i'r ysgol, nawr a nes ymlaen mewn bywyd).

Er enghraifft, mewn gwrs dylunio a thechnoleg (y cyd-destun yw 'cynllunio tegan gwegamera – gweler Astudiaeth achos 3 ar dudalen 57), mae gwahanu amcanion a chyd-destun fel hyn yn sicrhau bod y sgiliau mesur sy'n cael eu datblygu yn sgiliau nad ydyn nhw bob amser yn gysylltiedig â dylunio a thechnoleg, ond yn drosglwyddadwy. Mae'r amcanion a'r cyd-destun yn cael eu hegluro i'r dysgwyr ar ddechrau'r wers.'

## Defnyddio'r FfLIRh i osod disgwyliadau dysgu a monitro dilyniant

### Trosolwg

Dylid defnyddio datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh i fframio a diffinio'r disgwyliad neu'r nod dysgu terfynol. Drwy ddefnyddio'r FfLIRh fel hyn, bydd dealltwriaeth dysgwyr o ddilyniant yn cael ei hatgyfnerthu a byddant yn dod i ddeall sut i ddatblygu ac arddangos eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn ystod o gyd-destunau.

Yn y FfLIRh, mae datganiadau o ddisgwyliadau ar gyfer dilyniant sgiliau wedi'u nodi ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Eich tasg yw adeiladu darlun o sut y mae'r sgiliau hyn yn edrych ar draws y cwricwlwm ac integreiddio cyfleoedd i ddysgwyr allu eu datblygu a'u harddangos yn eu gwaith.

#### **Mae athrawes Blwyddyn 9 yn esbonio sut y mae'r FfLIRh wedi cael ei sefydlu yn ei hysgol.**

'Drwy sicrhau bod **amcanion dysgu** yn canolbwyntio ar sgiliau ac wedi'u cysylltu â'r FfLIRh, gall dysgwyr fyfyrion mewn ffordd fwy perthnasol a chywir ar y cynnydd y maen nhw wedi'i wneud yn eu dysgu a chymryd mwy o ran mewn trafodaethau ar sut y gallan nhw ddefnyddio'r sgiliau hyn mewn meysydd dysgu eraill.'

#### **Mae'r athrawes hefyd yn esbonio sut y mae asesu ar gyfer dysgu wedi cael ei sefydlu fel a ganlyn.**

'Wrth rhoi **meini prawf llwyddiant** clir i'r dysgwyr neu roi cyfle iddyn nhw gynhyrchu eu meini prawf eu hunain er mwyn i bob dysgwr allu asesu eu cynnydd ei hun yn gywir.'

Mae'n rhaid i feini prawf llwyddiant ganolbwyntio ar y gwahanol elfennau neu gamau tuag at y disgwyliad dysgu ac nid dim ond y cynnyrch terfynol. Byddant yn dasg-benodol ac yn llai generig na'r disgwyliadau dysgu a datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh.

Mae'n bwysig ceisio cynnwys dysgwyr yn y broses o ddatblygu'r meini prawf llwyddiant – trafod ac adnabod y sgiliau a'r is-sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r disgwyliad dysgu. Mae hyn yn cynnig modd iddynt ddeall yr hyn sydd ei angen a chymryd rheolaeth o'u

dysgu eu hunain. Gall hyn greu camau dilyniant ychydig yn wahanol ar gyfer pob dysgwr, ond yn y pen draw dylen nhw i gyd arwain at yr un disgwyliad cyffredinol.

### **Dywedodd athrawes mewn un ysgol gynradd y canlynol.**

'Mae tasgau megis creu meini prawf llwyddiant yn rhoi hyder i'r dysgwyr gan eu bod yn gwybod beth a ddisgwylir ganddyn nhw ac mae'n gweithredu fel rhestr wirio iddyn nhw wybod eu bod nhw ar y trywydd iawn. Mae asesu gan gyfoedion hefyd yn allweddol oherwydd yn aml gall dysgwyr weld pethau mewn goleuni gwahanol ac felly gallan nhw gynnig cyngor nad ydyn ni'r athrawon wedi meddwl amdano weithiau! Mae'r dysgwyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac mae'r gwersi yn canolbwyntio ar y dysgwr. Rydyn ni'n rhoi'r cyfrifoldeb o ddysgu yn nwylo'r dysgwyr ac mae'r canlyniadau yn amlwg. Mae ein dysgwyr yn hyderus gyda'u dysgu ond ar yr un pryd maen nhw'n teimlo'n hapus i ofyn am arweiniad.'

### **Datblygu disgwyliadau dysgu effeithiol**

Er mwyn datblygu llwybrau dilyniant effeithiol i ddisgwyliad dysgu cyffredinol mae nifer o gamau y gellir eu dilyn.

1. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall yn hollol beth yw'ch disgwyliad dysgu cyffredinol. Mae'n debyg ei fod yn rhywbeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm.
2. Defnyddiwch y FfLIRh i helpu i adnabod yr holl sgiliau ac is-sgiliau gwahanol sy'n ffurfio dilyniant tuag at y disgwyliad dysgu terfynol hwnnw ac yna eu rhoi mewn trefn.
3. Ceisiwch adnabod pa rai o'r sgiliau a'r is-sgiliau hyn y byddwch yn gallu asesu i lywio llwybr dilyniant.
4. Trafodwch y disgwyliadau dysgu a'r llwybrau dilyniant â'r dysgwyr ac, os yw'n bosibl, rhowch fodelau llwyddiant.
5. Peidiwch â bod ofn addasu neu newid y sgiliau, yr is-sgiliau a'r llwybr dilyniant yn dilyn gwybodaeth o'ch asesiadau, ond cadwch y disgwyliad terfynol mewn cof bob amser.

**Mae'n arfer gyffredin i gyflwyno disgwyliadau dysgu ar ddechrau gwers. Yma, mae pennaeth ysgol gynradd yn esbonio sut y gall defnyddio ymagwedd amgen fod o fudd.**

'Mae gosod amcanion dysgu o ansawdd a meini prawf llwyddiant gwerthfawr hefyd yn hollbwysig i gynnydd dysgwyr ac yn rhan annatod o gael dysgwyr i ddeall ble mae angen iddyn nhw fynd nesaf yn eu dysgu. Fel staff rydyn ni'n ymwybodol o'r angen i gymysgu pethau, ac weithiau gall peidio â sôn am yr amcan arwain at drafodaeth fwy pwrpasol ac ystyriol ar ddechrau gwers. Mae hefyd yn ddefnyddiol o ran helpu dysgwyr i ddeall y 'darlun mawr'.

## **Defnyddio sgiliau cwestiynu a 'siarad ar gyfer dysgu' i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd**

### **Trosolwg**

Mae manteision cwestiynu a 'siarad ar gyfer dysgu' cydweithredol yn cael ei gydnabod yn gyffredinol erbyn hyn. Wrth siarad yn yr ystafell ddosbarth, bydd dysgwyr yn cymryd rhan ac wedi'u hysgogi i ddysgu. Maent yn cynhyrchu ac yn datblygu eu syniadau eu hunain ac yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy y gellir eu defnyddio'n hyblyg waeth beth fo'r cyd-destun neu'r maes pwnc.

Bydd y defnydd effeithiol o gwestiynu agored yn golygu y gallwch asesu gwybodaeth flaenorol eich dysgwr o lythrennedd a rhifedd a sicrhau eu bod yn gweithio ar lefelau priodol ym mhob pwnc. Yn benodol bydd cynnwys datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh yn eich trafodaethau yn eich galluogi chi a'ch dysgwyr i adnabod a myfyrio ar rwystrau i ddysgu a chael atebion i'w datrys.

Dangoswyd bod cwestiynu agored, sy'n archwilio dealltwriaeth ddyfnach o'r disgwyliad dysgu a'r meini prawf llwyddiant cysylltiedig, yn arwain at ddysgu mwy cyson na defnyddio cwestiynau caeedig neu dim ond cael gwybod beth yw'r ateb.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi fod yn glir ynghylch pwrpas eich cwestiynau. Yn wir, mae'n bwysig ystyried a yw'n werth gofyn y cwestiwn hyd yn oed. Mewn ystafell ddosbarth asesu ar gyfer dysgu effeithiol, dylai'r cwestiynau penagored hyn gael eu gwahaniaethu

a dylai fod diwylliant lle rydych chi a'ch dysgwyr yn gallu gofyn cwestiynau i'ch gilydd ac o'ch gilydd.

Drwy wneud hyn, bydd dysgwyr ac ymarferwyr yn gallu herio eu hunain a'u cyfoedion mewn diwylliant o ymddiriedaeth ac ymholi<sup>8</sup> cydweithredol drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu ar gyfer dysgu megis partneriaeth dysgu; meddwl, paru, rhannu; dim dwylo i fyny<sup>9</sup>.

<b>Dylid defnyddio cwestiynau archwiliadol i:</b>	<b>Dylid defnyddio 'siarad ar gyfer dysgu' i:</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>ganfod beth mae dysgwyr yn ei wybod a'i ddeall mewn llythrennedd a rhifedd</li> <li>datblygu ymgysylltiad dysgwyr â llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm</li> <li>hyrwyddo trafodaeth a meddwl am sgiliau llythrennedd a rhifedd a sut y mae modd eu trosglwyddo ar draws pynciau</li> <li>hyrwyddo dysgu pellach (gan gynnwys ymholi annibynnol)</li> <li>ysgogi meddwl a myfyrio ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain a beth y gallant ei wneud i wella</li> <li>adolygu profiadau dysgu a sut y gellid eu trosglwyddo.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>archwilio syniadau mewn llythrennedd a rhifedd a meithrin dealltwriaeth o'r ddau faes sylfaenol hyn</li> <li>annog dysgu a meddwl cydweithredol</li> <li>annog dysgwyr i gynhyrchu eu cwestiynau eu hunain am lythrennedd a rhifedd a sut y gellir eu defnyddio mewn meysydd eraill</li> <li>helpu dysgwyr i ddefnyddio ei gilydd fel adnoddau dysgu</li> <li>rhannu strategaethau ar y camau i'w cymryd pan na fydd dysgwyr yn gwybod beth i'w wneud.</li> </ul>

Er mwyn cynnal diddordeb dysgwyr, hyrwyddo trafodaeth a sefydlu beth mae dysgwyr eisoes yn ei wybod gallech gyflwyno pwnc gyda 'chwestiwn mawr' fel y canlynol.

- Sut byddai mathemategwr yn teilsio fy ystafell ymolchi?

<sup>8</sup> Mewn rhai ysgolion gall ymagweddau dysgu cydweithredol eisoes fod ar waith. Yn dibynnu ar ddiwylliant presennol yr ysgol efallai y bydd rhaid i ddysgwyr gael eu hyfforddi, e.e. cytuno ar y rheolau ar gyfer siarad a gwranddo, parchu ei gilydd, a rolau o fewn grŵp. Awgryma tystiolaeth y gall y rhain gael eu datblygu'n weddol gyflym.

<sup>9</sup> Mae esboniad pellach o'r strategaethau hyn i'w gweld mewn canllawiau cyhoeddus (gweler yr adran 'Cyfeiriadau' ar dudalen 78).



- Mae 99 y cant o'r corff dynol wedi'i ffurfio o ocsigen, carbon, hydrogen, nitrogen, calsiwm a ffosfforws. Ydyn ni'n gymysgedd o gemegau?
- Ydy dawnsio yn fath o chwaraeon?

I ddatblygu trafodaethau gweithredol gallech chi ofyn y canlynol.

- Pwy arall sy'n meddwl hynny?
- Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth mae pobl eraill yn ei feddwl?

Er mwyn sefydlu cysylltiadau â'r FfLIRh, edrychwch am gyfleoedd i ofyn y canlynol.

- Ydych chi wedi gweld graffiau fel hyn mewn cyd-destun gwahanol?
- Ym mha ffordd arall allech chi gyflwyno'r wybodaeth hon?
- Sut gallwch chi gymhwyso'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn Gymraeg i'r ffordd y byddwch chi'n ysgrifennu eich adroddiad gwyddoniaeth?

Er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr gael amser i fyfyrion ar eu dysgu gallech chi ofyn y canlynol.

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu?
- Pam mae hyn yn bwysig?
- Sut oeddech chi wedi dysgu?
- Sut gallwch chi wella?

**Mae athro Blwyddyn 9 yn esbonio rhai o'r ymagweddau gwahanol a ddefnyddir yn ei ysgol i ddatblygu cwestiynu a 'siarad ar gyfer dysgu' mewn gwahanol wersi pwnc a sut mae'r rhain wedi cael effaith ar y dysgu.**

- 'Mae **datblygu technegau cwestiynu mwy amrywiol** wedi sicrhau bod staff a dysgwyr yn mynd ati i archwilio camsyniadau ynghylch ymatebion dysgwyr, cael datganiadau i'w trafod yn hytrach na chwestiynau caeedig i ymateb iddyn nhw.

- **Hyrwyddo cwestiynu ar lefel uwch** i ddatblygu uwch sgiliau meddwl dysgwyr; rydyn ni wedi defnyddio ‘matrics cwestiynau’ yn seiliedig ar Dacsonomeg Anderson a defnyddio ‘dis meddwl’ i ysgogi cynnydd a gallu’r dysgwyr i ofyn eu cwestiynau eu hunain a hwyluso cynnydd arwyddocaol.
- Defnyddio **delweddwr** (dyfais camera digidol rydyn ni’n defnyddio gyda byrddau gwyn rhyngweithiol) i hwyluso asesu ffurfiannol, mwy uniongyrchol; trwy ddefnyddio’r ddyfais hon, bydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn asesu gan cyfoedion gwaith dysgwyr yn fwy effeithiol. Yn ei dro mae hyn yn hwyluso ‘modelu’ mwy perthnasol ac uniongyrchol o sut i gynhyrchu **deialog marcio** effeithiol sy’n cael effaith ar gywirdeb ymatebion dysgwyr.

Mae’r ffocws uchel hwn ar gwestiynu a thrafod wedi cael effaith ar allu dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol, gwneud cysylltiadau rhwng sgiliau llythrennedd a rhifedd a phynciau eraill, adnabod patrymau a gwneud casgliadau mwy cymhleth.

- Oherwydd y **defnydd aml iawn o feddwl, paru, rhannu** ac oherwydd y ffocws uchel rydyn ni wedi’i roi ar ddatblygu llafaredd ac annibyniaeth fel dull o ddatblygu sgiliau ysgrifennu, mae’r dysgwyr yn datblygu sgiliau ysgrifennu mwy annibynnol ac nid ydyn nhw’n dibynnu’n ormodol ar daflenni gwaith neu fframiau ysgrifennu.’

### **Datblygu sgiliau cwestiynu effeithiol a ‘siarad ar gyfer dysgu’**

Er mwyn datblygu cwestiynu effeithiol a diwylliant o ‘siarad ar gyfer dysgu’ yn eich ystafell ddosbarth mae nifer o gamau y gellir eu dilyn.

1. Gosod gwersi yn seiliedig ar ymholi – cyflwyno pwnc gyda ‘chwestiwn mawr’.
2. Paratoi cyfres o gwestiynau agored cyn y wers sydd wedi’u cysylltu â’r disgwyliad dysgu a’r meini prawf llwyddiant. Ceisio canfod manau i’w defnyddio drwy’r wers.
3. Defnyddio ystod o strategaethau megis ‘partneriaid siarad; meddwl, paru, rhannu; dim dwylo i fyny; ac ati.
4. Rhoi ‘amser aros’ i’r dysgwyr drafod eu hatebion a llunio a rhannu ymatebion mewn ffordd sydd heb fod yn fygythiol.

5. Ceisio annog a chefnogi gwaith cydweithredol a siarad ar gyfer dysgu – rhoi cyfleoedd i grwpiau rannu syniadau.
6. Ceisio annog y dysgwyr eu hunain i gwestiynu ac archwilio.
7. Modelu ‘meddwl yn uchel’, ac arddangos geirfa meddwl – ‘Dwi’n meddwl ...’, ‘Oherwydd ...’ neu ‘Beth os ...?’.
8. Modelu gwranddo gweithredol – dangos parch at safbwyntiau pobl eraill ond bod yn barod i gefnogi neu herio eich safbwyntiau eich hun.
9. Annog dysgwyr i wneud cysylltiadau – cydnabod sut y gall dysgu gael ei ddefnyddio mewn amryw o sefyllfaoedd.

## **Gwella adborth er mwyn rhoi sylw i sgiliau llythrennedd a rhifedd**

### **Trosolwg**

Mae adborth yn wybodaeth sy’n cael ei rhoi i’r dysgwyr am ei gyflawniad mewn perthynas â disgwyliadau dysgu cytunedig. Boed yn adborth llafar neu ysgrifenedig<sup>10</sup>, mae’n ‘ffurfiannol’ dim ond os yw’n llywio dysgu yn y dyfodol. Dylid gael ei anelu’n benodol at feithrin gwelliant. Bydd adborth sydd yn amlwg wedi’i gysylltu â disgwyliadau’r FfLIRh yn un o’r agweddau mwyaf hanfodol ar ddefnyddio ymagwedd asesu ar gyfer dysgu.

Dylai’ch adborth gael ffocws, bod yn benodol, yn ddisgrifiadol ac yn hylaw a defnyddio cysyniadau a therminoleg o’r FfLIRh lle y bo’n bosibl. Bydd rhaid i ddysgwyr gael cyfle i fyfyrw a gweithredu ar unrhyw adborth a gânt er mwyn gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Dylai ymarferwyr hefyd ddefnyddio’r adborth y maent yn ei roi i sicrhau eu bod yn addasu eu cynllunio a’u haddysgu a sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu defnyddio mewn ffordd addas yn eu pynciau.

Bydd defnyddio disgwyliadau’r FfLIRh i ffurfio disgwyliadau dysgu a defnyddio adborth i dynnu sylw at y prosesau sy’n ysgogi cynnydd tuag at y nodau hyn yn cefnogi dysgu ac addysgu ac yn sefydlu’r FfLIRh wrth asesu bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

<sup>10</sup> Dangoswyd bod adborth yn cael effaith fawr ar ddysgu ar draws pob grŵp oedran ac mewn meysydd pwnc gwahanol. Mae John Hattie, y mae ei waith yn seiliedig ar oddeutu 800 o feta-ddadansoddiadau (52,637 o astudiaethau), yn nodi adborth fel y cymedrolwr unigol mwyaf pwerus sy’n gwella cyflawniad.

Mae adborth yn nodwedd allweddol o arferion asesu ar gyfer dysgu, ond gall fod yn heriol hefyd i'w gael i weithio yn yr ystafell ddosbarth. Gall cymryd amser ac ymarfer i ddatblygu'r gallu i ddarparu adborth effeithiol. Y nod yw cael dysgwyr i ymgysylltu ag asesu parhaus a'u cymell i wella eu deilliannau dysgu.

Mae adborth effeithiol yn ysgogi meddwl. Mae'n ailgyfeirio neu'n ailganolbwyntio'r camau y mae'r dysgwr (neu'r athro/athrawes) yn eu cymryd fel bod ymdrech a gweithgaredd yn cyfateb â chyflawni'r disgwyliad dysgu a ddymunir.

Nid yw cymryd amser i roi adborth da ac effeithiol yn golygu y dylech dreulio pedair gwaith mwy o amser ar 'farcio'. Yn lle hynny, mae canolbwyntio ar un agwedd i'r dysgwr ei gwella, yn hytrach na cheisio marcio pob manylyn yn ffordd dda o ddefnyddio'r dull hwn.

**Mae athrawes cynradd yn esbonio sut y mae wedi datblygu ei hymagwedd at adborth i gyfuno gweithredu'r FfLIRh gydag asesu ar gyfer dysgu a rhannu arfer da ar draws yr ysgol.**

'Mae gwella ansawdd adborth athrawon mewn llyfrau drafft dysgwyr wedi bod yn allweddol i ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ein hysgol ni. Cafwyd HMS yn gynnar yn nhymor yr hydref 2012 ar sylwadau asesu ar gyfer dysgu. Trafodwyd natur y samplau o sylwadau gan bwysleisio pa mor effeithiol y maen nhw o ran symud gwaith dysgwyr yn ei flaen a chysylltu â'r FfLIRh. Pwysleisiwyd cwestiynu penagored. Cafodd llyfrau dysgwyr Blwyddyn 3 eu rhannu fel enghraifft o arfer da a dangos sut y mae gwaith dysgwyr yn cymharu cyn ac ar ôl drafftio pan fydd adborth effeithiol yn cael ei roi.

Mae'r broses o olygu drwy asesu ar gyfer dysgu ym Mlwyddyn 3 yn golygu rhannu cwestiynu gan athrawon mewn llyfrau drafft gan roi sylw i ansawdd ymatebion dysgwyr hefyd. Felly, mae arfer da yn cael ei fodelu'n gyson ac mae dysgwyr yn dod yn ymwybodol o arfer da. Yn ei dro mae hyn wedi arwain at wella ansawdd hunanasesu ac asesu gan gyfoedion gan fod dysgwyr yn ymgysylltu â chwestiynu da i wella gwaith (gyda chysylltiadau â'r FfLIRh) ac o ganlyniad maen nhw'n dod yn fwy annibynnol gyda'u golygu.

Mae proses debyg yn cael ei dilyn gyda rhifedd. Mae'r FfLIRh wedi sicrhau bod asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith ar draws y cwricwlwm. Mae cynlluniau gwaith wedi'u diweddarau yn sicrhau mai dyma yw'r achos.'

## Datblygu diwylliant o adborth

Er mwyn datblygu adborth effeithiol yn eich ystafell ddosbarth mae nifer o gamau y gellir eu dilyn.

1. Defnyddio disgwyliadau'r FfLIRh i lunio disgwyliadau dysgu a meini prawf llwyddiant ar gyfer y gwaith sydd i'w gynhyrchu.
2. Adnabod cynnydd o fewn y FfLIRh; cymharu perfformiad cyfredol â gwaith blaenorol, e.e. 'Galla i weld dy fod di wedi canolbwyntio ar wella ...oherwydd nawr rwyd ti'n dangos ...Beth am roi cynnig ar ...?'
3. Rhoi adborth llafar fel a phryd y mae'n ymddangos yn briodol drwy gydol y wers, e.e. 'Wyt ti'n meddwl y gallet ti ddatblygu eich syniadau ymhellach drwy gynnwys rhai dyfyniadau uniongyrchol o'r ddrama?'
4. Rhoi adborth â ffocws, sy'n benodol, yn glir ac yn addysgiadol, e.e. 'Mae dy lythyr yn gweithio'n dda oherwydd rwyd ti wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a defnyddio iaith ddarbwyllol briodol', yn hytrach na dim ond dangos beth sy'n gywir.
5. Rhoi arweiniad penodol ar sut i wella ac nid dim ond dweud wrth ddysgwyr pryd y maent yn yn anghywir, e.e. rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut y gallant yn weithredu er mwyn gwella ansawdd eu gwaith yn syth.
6. Rhoi adborth amserol, digymell wrth ddysgu, yn hytrach nag ar ôl y digwyddiad.
7. Creu amser ar ddechrau eich gwern nesaf pan all dysgwyr roi sylw i unrhyw adborth ysgrifenedig.
8. Darparu cydbwysedd rhwng cymorth a her – annog ymdrech (hylaw) pellach gan y dysgwr.

## Defnyddio'r FfLIRh i ddatblygu asesu gan gyfoedion a hunanasesu

### Trosolwg

Mae'r ddau faes asesu ar gyfer dysgu hyn yn cael eu trin gyda'i gilydd yn aml, oherwydd mae'r sgiliau sy'n cael eu datblygu trwy asesu gan gyfoedion yn aml yn helpu gyda'r ddealltwriaeth a'r defnydd effeithiol o hunanasesu. Mae gwymbodaeth am y

disgwyliadau dysgu a'r meini prawf llwyddiant yn sail i'r ddwy ymagwedd hyn, oherwydd hebddynt nid oes unrhyw fframwaith gan y dysgwyr i asesu eu hunain neu ei gilydd yn ei erbyn.

Nid yw hunanasesu ac asesu gan gyfoedion yn sgiliau cynhenid, ond mae angen eu datblygu yn y dysgwyr i'w helpu i gael y mwyaf o ddefnyddio'r technegau hyn. Mae'n ddefnyddiol i ddechrau drwy asesu darnau o waith dienw ac i ymarferwyr fodelu sgiliau adborth.

Mae'n rhaid i'r sgil o roi adborth effeithiol gael ei fodelu'n eglur ac yn effeithiol, a'i addysgu gan ymarferwyr ar draws y cwricwlwm. Fel yr amlinellir yn yr adran 'Gwella adborth er mwyn rhoi sylw i sgiliau llythrennedd a rhifedd' (gweler dudalen 33), mae hyn yn golygu mwy na dim ond gwirio am gamgymeriadau neu meysydd i'w gwella – mae'n rhan o ddiwylliant dysgu cyffredin lle mae'r dysgwyr yn gweld eu hunain a'u cyfoedion fel 'adnoddau' i gefnogi eu dysgu, ac mae'r ymarferydd yn gweithredu mwy fel hwylusydd yn y broses ddysgu.

Gall proses syml ond effeithiol iawn o asesu gan gyfoedion gael ei datblygu drwy gynnwys y dysgwyr wrth gynhyrchu'r meini prawf llwyddiant ar gyfer tasg. Yna dylai cyfoedion asesu gwaith ei gilydd a rhoi adborth ffurfiannol yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant cytunedig y mae'r ddwy ochr yn eu deall. Bydd y broses asesu gan gyfoedion yn atgyfnerthu dealltwriaeth pob dysgwr o'r meini prawf llwyddiant ac yn rhoi persbectif arall iddynt ar eu gwaith eu hunain. Mae'n hollbwysig bod y dysgwyr yn cael cyfle i fyfrio a gweithredu ar yr adborth a gânt i wneud gwelliannau i'w gwaith.

Gall 'sbotoleuo' gael ei ddefnyddio wrth ddysgu o ddydd i ddydd. Pan fydd dysgwyr wrthi'n gweithio, gofynnwch iddynt o bryd i'w gilydd i aros a chanolbwyntio ar ddarn o waith neu bwnc y teimlwch y gall pawb elwa o'i rannu. Er enghraifft, gallech ddefnyddio delweddwr<sup>11</sup> i rannu enghraifft o waith ysgrifenedig, neu gallech ofyn i grŵp esbonio'r prosesau y maent wedi mynd trwyddynt mewn gweithgaredd gwyddoniaeth. Yna mae gweddill y dosbarth yn cael ei wahodd i gynnig adborth ffurfiannol. Gallwch ddechrau'r broses hon drwy fodelu adborth effeithiol (â ffocws, penodol, clir ac addysgiadol) ac ymhen amser, wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau, dylai gweddill y dosbarth gael ei wahodd i gynnig adborth ffurfiannol – a'i lunio'n gydweithredol weithiau a thynnu sylw at gysylltiadau â'r FfLIRh.

---

<sup>11</sup> Mae delweddwr yn ddyfais camera digidol sy'n pwyntio i lawr. Mae'n cael ei gysylltu â thafllunydd LCD a/neu gyfrifiadur, gan gynnig modd arddangos gwrthrychau, dogfennau, lluniau, ac ati, ar fwrdd gwyrn rhyngweithiol.

Wrth i ddysgwyr fod yn fwy medrus o ran asesu gwaith eu cyfoedion yn effeithiol, byddant hefyd yn gallu asesu'n well a gwella eu gwaith eu hunain.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddysgwyr gael mynediad i amcanion dysgu o ansawdd uchel a meini prawf llwyddiant a gall hyn ddilyn datblygu sgiliau athrawon yn y maes hwn yn unig. Bydd bod yn hollol gyfarwydd â datganiadau dilyniant y FfLIRh a'u trafod yn gyson yn ategu'r prosesau angenrheidiol i bawb dan sylw.

### **Mae athrawes yn disgrifio sut y mae asesu gan gyfoedion a hunanasesu yn digwydd yn yr ysgol.**

'Rydyn ni'n rhoi'r cyfrifoldeb o asesu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion i'r dysgwyr. Caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio ein 'cod cywiro' i gywiro camgymeriadau a chânt pennau lliw i wneud hynny. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth a phwysigrwydd i'r dasg. Mae'r dysgwyr yn cael eu hannog yn gyson i edrych yn wrthrychol ar eu gwaith er mwyn cydnabod y pethau cadarnhaol ac yn gweld pa feysydd y mae angen eu gwella. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r dysgwyr wybod beth sydd ei angen er mwyn llwyddo yn y lle cyntaf. Dyma pam ein bod yn defnyddio meini prawf llwyddiant ar gyfer ein tasgau. Gall ein dysgwyr adnabod â hyder beth sydd ei angen i lwyddo yn y dasg ac mae hyn i'w briodoli i ddisgwyliadau, paratoi, datblygu a chysondeb.

Wrth gwrs, nid oes rhaid i werthuso fod mewn ffurf ysgrifenedig bob amser. Mae dysgwyr hefyd yn cael eu hannog i roi adborth llafar i staff neu eu cyfoedion ac yn fwy penodol gellir gofyn iddyn nhw gyfiawnhau eu barn a hefyd cynnig cyngor ar sut i wella'r gwaith. Mae delweddwr gan bob dosbarth sy'n golygu y gall gwaith effeithiol gael ei arddangos a'i drafod gyda'r dosbarth cyfan.'

### **Mae'r athrawes yn mynd ymlaen i ddisgrifio sut y cafodd yr ymagweddau hyn eu defnyddio mewn gwrs lle roedd dysgwyr yn ysgrifennu dyddiadur yn null milwr Rhufeinig.**

'Cafodd y dysgwyr daflen gynllunio ac roedd rhaid iddyn nhw ei chwblhau gyda phartner. Y rheswm am hyn oedd i annog trafodaeth, rhannu syniadau a hefyd gwerthuso gwaith ei gilydd. Roedd y daflen gynllunio yn gofyn i'r dysgwyr edrych drwy nifer o adnoddau (llyfrau gwybodaeth, eu prosiectau, eu nodiadau o'r fideos, y rhyngwyd, taflenni gwaith blaenorol) er mwyn cwblhau pob rhan yn llawn. Roedd hyn yn golygu eu bod yn datblygu nifer o sgiliau o'r FfLIRh:

- sgiliau llafaredd, e.e. trafod, cwestiynu
- sgiliau darllen, e.e. cip ddarllen, llithr ddarllen, darllen annibynnol a manwl
- sgiliau ysgrifennu, e.e. dewis iaith briodol, ysgrifennu ar ffurf nodiadau, defnyddio ffurf safonol berfau amrywiol.

Roedd defnyddio'r daflen gynllunio yn gywir yn bwysig, h.y. sicrhau eu bod nhw i gyd yn defnyddio'r wybodaeth roedden nhw wedi'i chanfod a'i hysgrifennu, er mwyn sicrhau bod eu dyddiadur yn llawn gwybodaeth. Roedd rhaid i'r dysgwyr drafod a phenderfynu ar gynnwys y brawddegau roedden nhw wedi'u hysgrifennu gyda'u partner a hefyd cyd-gywiro'r brawddegau i sicrhau bod y sillafu a'r cystrawennau yn gywir.'

### **Datblygu asesu gan gyfoedion a hunanasesu**

Er mwyn datblygu asesu gan gyfoedion a hunanasesu effeithiol mae nifer o gamau y gellir eu dilyn.

1. Rhannu'r disgwyliadau dysgu â'r dysgwyr, tynnu sylw at ddisgwyliadau'r FfLIRh ym mhob gwers, a sicrhau eu bod yn eu deall.
2. Gyda'ch gilydd penderfynu ar y meini prawf llwyddiant a beth mae'r rhain yn ei olygu yn ymarferol – trafod sut byddai llwyddiant yn edrych yng nghyd-destun y wers hon.
3. Annog dysgwyr i osod targedau ar gyfer nhw eu hunain, gan ddefnyddio datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh, a nodi'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gyrraedd y targedau hyn.
4. Datblygu cyfres o reolau i'r dysgwyr eu dilyn wrth ymgymryd ag asesu gan gyfoedion neu hunanasesu, e.e. 'Rydyn ni'n rhoi rheswm i esbonio beth rydyn ni wedi'i ddweud am ddarn o waith.'
5. Modelu'n weithredol ac yn gyson sut mae adborth penodol yn edrych er mwyn osgoi sylwadau cyffredinol, e.e. 'Da iawn' neu 'Lawysgrifen daclus'.
6. Gall dysgwyr ddarllen eu gwaith yn uchel i'w gilydd a datblygu cyfres o gwestiynau (yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant) i asesu ansawdd y darn.



7. Gall dysgwyr gael eu hannog i farcio eu gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill yn erbyn cyfres o feini prawf cytunedig.
8. Rhoi amser i ddysgwyr ystyried yr adborth a gasglwyd yn ystod asesu gan gyfoedion a hunanasesu er mwyn i'r gwaith gael ei wella, rhoi sylw i broblemau, neu osod targedau newydd.

## **Hyfforddi cyfoedion ymysg ymarferwyr i ddatblygu a sefydlu asesu ar gyfer dysgu a'r FfLIRh**

### **Trosolwg**

Wrth weithredu'r FfLIRh, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cydweithio i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r FfLIRh a chydabod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob gwers.

Ymagwedd effeithiol a gwerthfawr at ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr o ran sgiliau a strategaethau asesu ar gyfer dysgu yw hyfforddi cyfoedion. Mae'n arbennig o effeithiol fel rhan o bolisi ysgol gyfan sy'n ceisio datblygu dealltwriaeth gyffredin o ganllawiau neu arferion newydd, megis cyflwyno'r FfLIRh. Mae hyfforddi cyfoedion yn ffordd ffurfiannol i ymarferwyr archwilio'r strategaeth sydd eu hangen i weithredu'r FfLIRh a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r prosesau dan sylw.

Gall model hyfforddi cyfoedion wella ansawdd arferion asesu ar gyfer dysgu yng nghyd-destun y FfLIRh ac adeiladu gallu a chynaliadwyedd. Bydd gweithio gyda chyfoedion yn gwella eich dealltwriaeth o'r disgwyliadau dysgu dilyniadol a amlinellir yn y FfLIRh yn ogystal â'ch helpu i weithredu'r FfLIRh ac ymestyn eich arferion asesu ar gyfer dysgu. Bydd canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth pob ymarferydd o ddilyniant.

Prif nod hyfforddi cyfoedion yw ailystyried y ffordd y caiff pethau ei gwneud ac addasu i newid. Wrth i'r FfLIRh gael ei gyflwyno, gall manteision hyfforddi cyfoedion fynd y ddwy ffordd – nid yn unig mae'r ymarferwyr a arsylwir yn cael adborth penodol ond mae'r arsylwyr eu hunain yn profi amrywiaeth ehangach o ymagweddau ystafell ddosbarth y gall deialog a dysgu pellach ddeillio ohonynt. Yn aml mae ymarferwyr wedi dysgu'n annisgwyl o arsylwi ar gydweithwyr yn gweithio mewn meysydd pwnc gwahanol neu gyda dysgwyr o wahanol oedrannau. Yn arbennig, mae ymarferwyr Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn aml yn synnu wrth arsylwi ar yr ymagweddau dysgu a dulliau asesu sy'n cael eu defnyddio yn y Cyfnod Sylfaen.

**Mae athro mewn ysgol uwchradd yn disgrifio sut y mae'n defnyddio arsylwadau gwersi ynghyd ag arferion ysgol gyfan eraill i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu a sefydlu'r FfLIRh.**

'Rydyn ni'n monitro ac yn gwerthuso'n drwyadl drwy arsylwi ar wersi gyda'r nod o rannu ymagwedd gyffredin at ddatblygu sgiliau darllen a strategaethau cwestiynu a chanolbwyntio ar lefel y galw y dylen ni ei ddisgwyl o ran cywirdeb mewn mynegiant ysgrifenedig.

Rydyn ni hefyd yn monitro ac yn gwerthuso gweithredu drwy graffu ar gofnodion cyfarfodydd adran a llais y dysgwr. Rydwn ni'n amserlennu trafodaethau sy'n canolbwyntio ar ddysgu yn rheolaidd mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Defnyddiwn y fforwm hwn i ganfod llwyddiant, sefydlu beth sy'n ei wneud yn arfer da a'i rannu gyda'r holl aelodau staff.'

### **Datblygu hyfforddi cyfoedion yn eich ysgol**

Er mwyn datblygu hyfforddi cyfoedion effeithiol ymysg aelodau staff yn eich ysgol mae nifer o gamau y gellir eu dilyn.

1. Dylai parau neu dimau hyfforddi cyfoedion drafod eu dealltwriaeth o'r FfLIRh a'u dealltwriaeth o arferion ystafell ddosbarth asesu ar gyfer dysgu effeithiol ac archwilio gyda'i gilydd sut y gall y rhain gael eu gweithredu orau ar yr un pryd yn eu hystafelloedd dosbarth.
2. Dechrau drwy adnabod ble ydych chi nawr – ydych chi newydd ddechrau, ar y ffordd, bron â bod yno neu'n arbenigwr eisoes?
3. Amserlennu cyfres o arsylwadau gwersi parhaus ar y cyd, gan gynnwys amser trafod cyn ac ar ôl y gwersi. Dylech fyfyrion ar yr agweddau penodol ar y FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu rydych chi am eu datblygu, a thrafod a chytuno â'r rhain gyda'ch hyfforddwr cyfoedion cyn bob sesiwn.
4. Dylid dilyn pob sesiwn arsylwi gwersi gyda thrafodaeth ac adborth a chynllun gweithredu ar gyfer eich camau nesaf.

Mae'n rhaid i sesiwn hyfforddi cyfoedion ganolbwyntio ar anghenion a disgwyliadau a nodwyd. Dylid cytuno ar gyfres glir o brotocolau a chyfrifoldebau ymlaen llaw. Ni ddisgwylir i hyfforddwyr ddarparu'r atebion – mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gallu cael hyd i'r atebion eu hunain.

## **Defnyddio gwybodaeth o'r profion darllen a rhifedd mewn ffordd ffurfiannol**

### **Trosolwg**

Bydd profion darllen a rhifedd sydd â chysylltiad agos â'r FfLIRh yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer pob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9. Nod y profion hyn yw rhoi 'braslun crynodol' o berfformiad cyffredinol o ran cynnydd ar gyfer carfannau ac unigolion. Fodd bynnag, gall gwybodaeth asesu o'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol gael ei defnyddio'n ffurfiannol a'i datblygu i helpu addysgu a dysgu.

Dylai asesu ffurfiannol ac asesu crynodol weithio ochr yn ochr â'i gilydd, er mwyn gwneud asesu crynodol yn fwy ystyrlon i arferion bob dydd.

Gall profion ddarparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a all gynnal diddordeb ac ysgogi dysgwyr i ofyn cwestiynau, meddwl yn ddwfn, adolygu ac archwilio syniadau.

Er enghraifft, i ddysgwyr Blwyddyn 4 ac uwch, mae'r profion darllen cenedlaethol yn cynnig ystod o gwestiynau ymateb estynedig penodol y gallwch eu defnyddio (ar sail ddewisol) i archwilio sgiliau darllen eich dysgwyr a darparu gwybodaeth asesu ffurfiannol<sup>12</sup>. Mae sylwadau'n cael eu darparu ar batrymau perfformiad a chamgymeriadau darllen a deall cyffredin ac mae rhai awgrymiadau'n cael eu darparu ar gyfer datblygu sgiliau darllen a deall arbennig fel yr amlinellir yn y FfLIRh.

Drwy edrych ar ymatebion eich dysgwyr gallwch nodi unrhyw gwestiynau sydd wedi achosi anawsterau neu gweld ble mae atebion dysgwyr yn amhenodol neu'n dangos diffyg profiad o ran dilyn union ofynion y cwestiwn.

<sup>12</sup> [learning.wales.gov.uk/resources/extended-responses/?skip=1&lang=cy](http://learning.wales.gov.uk/resources/extended-responses/?skip=1&lang=cy)

**Mae athro o un ysgol yn esbonio sut roedd yr ysgol wedi defnyddio staff cymorth dysgu i weithio gydag unigolion fel sail i ddadansoddi lefel cwestiynau o ddata profion.**

'Rydyn ni hefyd wedi canolbwyntio ar ddefnyddio staff cymorth i weithio gyda grwpiau o ddysgwyr i weithio ar dargedau unigol neu grŵp y FfLIRh, a nodwyd drwy ddefnyddio'r profion mewn modd diagnostig. Gellir gwneud hyn mewn sesiynau byr o tua 10 munud y dydd. Mae hyn wedi bod yn effeithiol o ran codi cyrhaeddiad yn sylweddol. Wrth i staff roi sylw i'w hanghenion mewn ffodd mor benodol, mae'r dysgwyr wedi cynyddu'r sgiliau y mae modd wedyn eu hymarfer a'u defnyddio ar draws y cwricwlwm.'

**Dywedodd y canlynol gan athrawes Blwyddyn 8 a fu'n treialu'r cwestiynau agored dewisol yn y profion llythrennedd cenedlaethol.**

'Ar ôl i'm dosbarth gwblhau'r prawf darllen cenedlaethol, roedden ni wedi adeiladu cyfres o wersi o gwmpas y cwestiynau ymateb estynedig dewisol. Yn gyntaf, roedd pawb wedi rhoi cynnig ar ysgrifennu eu hatebion eu hunain i'r cwestiynau ar un o'r testunau. Yna cafwyd trafodaeth dosbarth ar yr hyn y gallen ni ddisgwyl i'r atebion gorau ei gynnwys. Gyda'n gilydd, roedden ni wedi nodi'r sgiliau FfLIRh y bydden ni'n eu defnyddio i ateb pob cwestiwn a datblygu rhai meini prawf llwyddiant wedi'u cysylltu â dilyniant FfLIRh.

Roedden ni wedi rhannu rhai atebion enghreifftiol ac roedd y dysgwyr wedi cymryd eu tro i awgrymu gwelliannau a fyddai'n arwain at ddilyniant ar gydran llythrennedd y FfLIRh.

Er enghraifft, roedd un cwestiwn yn y prawf Blwyddyn 8/9 yn gofyn i'r darllenydd *adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud* (Blwyddyn 8, Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd: Ymateb a dadansoddi).

Er mwyn datblygu'r sgil hwn cytunwyd i archwilio ymhellach y pwnc dadleuol a amlinellwyd yn nhestun y prawf (a yw hi'n syniad da i gadw anifeiliaid mewn sw) drwy ymchwilio a rhannu rhai safbwyntiau eraill, gan felly gweithio tuag at *adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu* (Blwyddyn 9, Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd: Ymateb a dadansoddi).

Mewn cwestiynau eraill roedd y dysgwr yn gallu adnabod sgiliau megis 'crynhoi a chyfuno gwybodaeth' neu 'ddefnyddio, casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr'.

Gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant cytunedig, roedd dysgwyr yn gallu gwerthuso atebion ac awgrymu gwelliannau megis 'Mae'r ateb hwn yn esbonio bod yr awdur yn ceisio ein darbwyllo i dderbyn ei safbwynt ef, ond byddai'n well pe bai'n cynnwys rhai enghreifftiau o sut y mae'n gwneud hynny.'

Roedd hwn yn ymarfer defnyddiol iawn ar gyfer meddwl am y sgiliau FfLIRh a ddefnyddir yn y prawf ac roedd wedi helpu'r dysgwyr i fyfrio ar eu hatebion eu hunain ac adnabod eu targedau dilyniant eu hunain.'

Wrth i'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol gael eu sefydlu, gallwch ddatblygu dulliau effeithiol o ddefnyddio gwybodaeth o'r profion mewn ffordd fwy ffurfiannol.

Er enghraifft, mae nifer o gamau y gellir eu dilyn.

1. Wrth farcio'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar gyfer eich dysgwyr chwiliwch am batrymau o gyflawniad, camgymeriadau cyffredin neu gamsyniadau.
2. Gall dadansoddi lefel cwestiynau ddangos cryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y dosbarth neu'r grŵp blwyddyn cyfan, a gall eu perfformiad gael ei gymharu â pherfformiad sampl cynrychioliadol cenedlaethol.
3. Defnyddiwch yr wybodaeth a gewch i fyfrio ar eich arferion eich hun a llywio eich cynllunio a'ch addysgu.
4. Defnyddiwch yr wybodaeth a gewch i fwydo'n ôl i ddysgwyr unigol a rhannwch yr wybodaeth hon ag athro blwyddyn neu athrawes flwyddyn nesaf y dosbarth.
5. Ceisiwch adnabod y mathau o gwestiynau sydd wedi bod yn anodd i grwpiau neu unigolion. Gall hyn fod yn ddefnyddiol o ran adnabod meysydd dysgu y mae angen eu hailystyried.
6. Mewn gwers, gosodwch dysgwyr y dasg o lunio eu cwestiynau eu hunain sy'n gysylltiedig â phrawf a meddylwch am y meini prawf marcio a fyddai'n cyd-fynd â nhw.

7. Gan ddefnyddio dewis o ymatebion a gafodd eu cynnig gan y dosbarth ond yn ddiennw, gofynnwch i'r dysgwyr sy'n gweithio mewn paru neu grwpiau i'w rhestru gan ddefnyddio'r meini prawf marcio. (Os yw dylanwad llawysgrifen yn cael ei ddileu o'r enghreifftiau, mae dysgwyr yn gallu canolbwyntio llawer gwell ar ansawdd yr ymateb.)
8. Gall dysgwyr fod yn feirniaid gorau o'u gwaith eu hunain. Gall dangos y meini prawf marcio iddynt a'u hannog i gymharu eu hymateb â'r rhai a gafodd marciau llawn fod yn addysgiadol. (Rhaid gwneud hyn mewn modd sensitif o fewn diwylliant sydd wedi sefydlu'r defnydd o adborth ac asesu gan gyfoedion a hunanasesu.)
9. Defnyddiwch y cwestiynau agored dewisol a ddarperir gyda'r profion darllen cenedlaethol i archwilio dealltwriaeth unigolion a grŵp o'r testunau a ddefnyddir yn y profion. (Bwriedir iddynt gael eu defnyddio ar ôl i'r prawf swyddogol gael ei gwblhau.)

Yn dilyn y gweithgareddau hyn, gellir gofyn i'r dysgwyr adnabod rhai targedau dysgu mewn perthynas â'r FfLIRh a fydd yn eu helpu i wella eu perfformiad.

## 9. Astudiaethau achos enghreifftiol o wersi cyfan

Yn yr adran hon mae ystod o astudiaethau achos gwersi yn cael eu cyflwyno i ddangos sut y gellir cydnabod ac asesu datganiadau o ddisgwyliadau'r FfLIRh mewn gwersi bob dydd gan ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu. Cafodd pob un ei gyflwyno gan athro/athrawes gwahanol, ac mae ei arddull a'i ffocws ei hun gan bob un.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ystyried gwerau arferol yn eich dosbarth ac adnabod pa ddisgwyliadau'r FfLIRh y gallech arsylwi arnynt yn eich dysgwyr. Hefyd edrychwch ar y datganiadau o ddisgwyliadau yn y blynyddoedd uwchben ac o dan eich dysgwyr er mwyn i chi ddod i adnabod dilyniant a gallu targedu disgwyliadau'n briodol ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai mwy galluog a thalentog.

Cofiwch mae'r FfLIRh ac asesu ar gyfer dysgu yn berthnasol i bob dysgwr, o 5 i 14 oed, ac ar draws pob maes cwricwlwm.

## Astudiaeth achos 1: Datblygu llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen

Yn yr ysgol hon, roedd pob dysgwr yn gweithio ar y pwnc ysgol gyfan 'Gofod'. Roedd cynllunio cydweithredol a mapio trawsgwricwlaidd o sgiliau'r FfLIRh wedi sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd yn cael eu hadnabod a'u hamlygu ym mhob gwers ar draws yr ysgol (lle y bo'n briodol<sup>13</sup>). Mae enghreifftiau pellach o wersi trawsgwricwlaidd ar y thema ysgol gyfan 'Gofod' yn cael eu cyflwyno yn Astudiaeth achos 4 (gweler tudalen 61).

### Rhan 1: Arallfydol

**Cyd-destun:** Yn y wers hon roedd dysgwyr wedi archwilio beth roedden nhw (eisoes) yn ei wybod am y gofod.

**Bwriadau dysgu:** Trafod gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth; mynegi hoffterau a rhoi rhesymau; cofnodi gwybodaeth berthnasol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Fel y sy'n digwydd yn aml yn y Cyfnod Sylfaen, mae ymarferwyr yn addasu addysgu mewn ymateb i rywbeth sydd wedi'i gychwyn gan un o'r plant, i gefnogi ac annog eu 'dysgu annibynnol'. Roedd y gweithgaredd hwn yn deillio o drafodaeth a ddatblygodd pan oedd un o'r plant Blwyddyn 2 wedi dod â llyfr o gartref roedd e wedi bod yn ei fwynhau.

I gychwyn, mewn sesiwn drafod i'r dosbarth cyfan, roedd yr athro Blwyddyn 2 wedi sefydlu gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y plant o'r pwnc gan ofyn y canlynol.

- Beth oedd y plant (eisoes) yn ei wybod?
- Beth oedden nhw am ei ganfod?

Nesaf, roedd y grŵp wedi siarad am wahanol ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio'r llyfr fel yr enghraifft gyntaf yna darganfod ffyrdd eraill o gyflwyno ffeithiau amrywiol. Roedd pob plentyn yn gallu cyfrannu rhywbeth at y drafodaeth dosbarth a chafodd nifer o sgiliau FfLIRh eu hasesu.

<sup>13</sup> Er bod cyfleoedd bron bob amser i ddefnyddio rhai sgiliau llythrennedd, mae rhai gwersi lle nad oes modd ymgorffori sgiliau rhifedd.



Cafwyd trafodaethau pellach mewn partneriaid siarad ac o fewn sefyllfa grŵp ac roedd adroddwyr wedi rhaeadru'r prif bwyntiau i weddill y dosbarth er mwyn i drafodaethau pellach ddigwydd ar y meysydd o ddiddordeb.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 2 – Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**

#### **Siarad:**

- Mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau.

#### **Gwranddo:**

- Gwranddo ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.
- Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol.

#### **Cydweithio a thrafod:**

- Cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc, a chymryd eu tro i siarad.

## **Rhan 2: Cwestiynau mathemategol**

**Cyd-destun:** Yn y wers hon gofynnwyd i'r plant lunio cwestiwn oedd yn cynnwys rhifau a gofod ac ymchwilio a chyflwyno eu hatebion ar bapur.

**Bwriadau dysgu:** Gofyn cwestiynau mathemategol; deall a chofnodi manylion/data perthnasol o destunau.

Er mwyn cael ffocws ar rifedd, cytunwyd y dylai pob cwestiwn gynnwys rhifau mewn rhyw ffordd.

Roedd pob plentyn wedi llunio cwestiwn, er enghraifft 'Pa mor gyflym ydy gwennol ofal yn teithio i'r gofod?', ac yna bydden nhw'n ymchwilio ac yn cyflwyno eu casgliadau ar bapur. Ar ôl gorffen y trafodaethau, roedd y plant wedi gweithio'n annibynnol ar eu tasg ysgrifennu, cael atebion i'w cwestiynau a chwilio am ddarluniadau ategol os oedd angen.

Gan eu bod nhw eisoes yn gweithio ar y pwnc (fel rhan o'r cynllunio thematig ysgol gyfan), roedd y plant Blwyddyn 2 hyn yn gallu gofyn cwestiynau rhifiadol i hyrwyddo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gofod, e.e. 'Sawl diwrnod ydy hi'n cymryd i'r Ddaear droi o gwmpas yr haul?', 'Sawl un o leuadau'r Ddaear allech chi ffitio i mewn i'r blaned Mercher?', 'Pa mor hen yw'r blaned lau?', 'Os ydych chi'n pwyso 100 pwys ar y Ddaear faint fyddech chi'n pwyso ar y blaned lau?'

Yna roedd y plant wedi ymchwilio'r atebion i'w cwestiynau gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, roedden nhw wedi gweithio mewn partneriaid siarad i gychwyn.

Yna roedd yr athro wedi modelu ac awgrymu ffyrdd gwahanol o gyflwyno eu hatebion i atgoffa'r plant bod mwy nag un ffordd o gyflwyno syniadau rhifiadol.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn gallu darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100. Yn ddiweddarach, pan oedden nhw wedi adrodd yr wybodaeth i'r dosbarth, dangosodd rhai o'r plant eu bod yn gallu darllen rhifau dros 100, dros 1,000 ac mewn rhai achosion dros 100,000.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 2 – Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif**

#### **Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau:**

- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100.
- Cymharu a rhoi rhifau 2 ddigid mewn trefn.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 2 – Rhifedd – Defnyddio sgiliau data**

#### **Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau:**

- Casglu a chofnodi data o:
  - restrau a thablau
  - diagramau
  - graffiau bloc
  - pictogramau lle bo'r symbol yn cynrychioli un uned.
- Echdynnu a dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 2 – Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**

#### **Siarad:**

- Defnyddio ambell dreigladd y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. *y bêl, fy mag, i'r dref*.

#### **Gwranddo:**

- Ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e. *Ydy? Ydy/Nac ydy*.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 2 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**

#### **Strategaethau darllen:**

- Adnabod a defnyddio nodweddion testun, e.e. *teitlau, penawdau a lluniau*, i ganfod a deall gwybodaeth benodol.
- Chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn.
- Defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr, e.e. *lluniau, siartiau a'r cynllun*.

#### **Darllen a deall:**

- Esbonio manylion perthnasol o destunau.
- Defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau.

### **Rhan 3: Cyflwyno'r ffeithiau**

Gofynnwyd i'r plant ystyried sut y bydden nhw'n cyflwyno eu gwaith er mwyn i'w syniadau fod yn drefnus a gallai'r darlennydd weld y ffeithiau'n glir ac yn gyflym.

**Bwriad dysgu:** Cyflwyno'r gwaith mewn ffordd glir a threfnus.

Gofynnwyd i'r plant ystyried pa gynllun y bydden nhw'n ei ddefnyddio:

- mapiau meddwl
- pwyntiau bwled

- gridiau GED<sup>14</sup>
- diagramau
- lluniadau wedi'u hanodi.

Mae'r rhain yn strategaethau asesu ar gyfer dysgu sy'n gweithio'n dda, yn ein profiad ni, gyda'r grŵp oedran hwn.

Er enghraifft, gofynnodd un plentyn y cwestiwn 'Pa mor bell yw'r Lleud o'r Ddaear?'. Darparwyd lluniau o'r Ddaear, y Lleud a roced, gyda labeli, ochr yn ochr â'r ateb: 'Mae'r Lleud tua 224,000 o filltiroedd o'r Ddaear.'

Yn ystod y wers, adolygwyd y meini prawf llwyddiant yn ystod 'seibiau' ac roedd y plant wedi ystyried enghreifftiau o'r hyn roedd eu cyfoedion wedi'i gynhyrchu.

Cafodd cynlluniau gwahanol eu cyflwyno i'r dosbarth, a thrafodwyd, fel dosbarth, cwestiynau megis:

- Beth oedd y pwyntiau cadarnhaol am bob un?
- Pa gynllun(iau) oedd wedi bodloni'r meini prawf llwyddiant yn llwyr?

Ar ôl rhannu eu gwaith ac adolygu'r meini prawf llwyddiant fel dosbarth, roedd y dysgwyr wedi adolygu a gwella eu gwaith eu hunain gan ystyried beth roedden nhw wedi'i ddysgu yn y trafodaethau dosbarth.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 2 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth**

#### **Ystyr, dibenion, darllenwyr:**

- Ysgrifennu at ddibenion gwahanol.
- Ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenydd arall – gall y testun gynnwys manylion a lluniau.
- Defnyddio sgwrs i gynllunio ysgrifennu.
- Arbrofi â ffurfiau a chynlluniau gwahanol ar sgrin, gan symud testun a lluniau o gwmpas yn hwylus.

<sup>14</sup> Mae grid GED yn tynnu sylw at wybodaeth flaenorol a gellir ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer ymchwiliadau. Mae'n dangos meysydd o ddiddordeb, yn hyrwyddo sgiliau ymchwil a gellir ei ddefnyddio ar gyfer asesu. Penawdau'r colofnau yn y grid yw 'Beth ydw i'n gwybod am y pwnc hwn? (G)', 'Beth ydw i eisiau gwybod? (E)', 'Beth ydw i wedi dysgu? (D)'.

### **Strwythur a threfn:**

- Dilyn a datblygu ar ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes.
- Defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas a'r darlennydd.

### **Cysylltiadau â'r FFLIRh: Blwyddyn 2 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir**

#### **Iaith:**

- Deall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu.
- Defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol.

### **Cysylltiadau â'r FFLIRh: Blwyddyn 2 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**

#### **Strategaethau darllen:**

- Adnabod a defnyddio nodweddion testun, e.e. *teitlau, penawdau a lluniau*, i ganfod a deall gwybodaeth benodol.
- Chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn.
- Defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr, e.e. *lluniau, siartiau a'r cynllun*.

#### **Darllen a deall:**

- Esbonio manylion perthnasol o destunau.
- Defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau.

## Astudiaeth achos 2: Datblygu llythrennedd mewn gwern hanes ym Mlwyddyn 5

Yn yr astudiaeth achos hon, mae athro Blwyddyn 5 yn disgrifio gwern hanes lle roedd ystod eang iawn o sgiliau llythrennedd yn cael eu datblygu.

**Cyd-destun:** Yn y wers hon, gofynnwyd i'r dysgwyr ysgrifennu dyddiadur fel milwr Rhufeinig y diwrnod ar ôl y frwydr yn erbyn y Celtaid.

Er mwyn paratoi ar gyfer y gweithgaredd hwn roedd dysgwyr eisoes wedi cwblhau nifer o dasgau, gan gynnwys:

- creu prosiect (tasg gwaith cartref) am y Fyddin Rufeinig
- gwyllo fideos a gwneud nodiadau
- nifer o dasgau ymchwiliadol gan ddefnyddio llyfrau a cyfrifiaduron llechen, e.e. darganfod yr enwau Lladin ar gyfer yr arfau a'r arfwisg er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r termau yn eu dyddiadur.

Roedd y dysgwyr hefyd wedi astudio dyddiadur milwr Rhufeinig effeithiol ac aneffeithiol er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach o ofynion dyddiadur llwyddiannus. Roedden nhw wedi creu mygydau Celtaidd a tharianau Rhufeinig (gwaith celf) ac wedi cael gwern chwarae rôl 'Rhufeiniaid yn erbyn Celtaid' lle roedd rhaid iddyn nhw arddangos y gwahanol dechnegau brwydro a ddefnyddiwyd gan y ddwy ochr.

Roedd y tasgau hyn wedi datblygu nifer o sgiliau llythrennedd trawsgwricwlaidd a gellid eu datblygu ymhellach i gynnwys llinynnau rhifedd.

### Gweithgareddau llwyddiannus

Cafodd y dysgwyr daflen gynllunio yr oedd rhaid iddyn nhw ei chwblhau gyda phartner. Roedd y daflen yn darparu nifer o ysgogiadau i gefnogi cynllunio, e.e. diben y frwydr, sut roedd y Celtaid yn byw ac yn ymladd, yn ogystal â beth ddigwyddodd a sut oedden nhw'n teimlo. Y rheswm am hyn oedd i annog trafodaeth, rhannu syniadau a hefyd i werthuso gwaith ei gilydd. Er mwyn herio'r dysgwyr mwy galluog, dewiswyd partneriaid ar sail gallu.

Roedd y rhai a oedd angen cymorth ychwanegol wedi cydweithio â chynorthwydd dosbarth. Roedd y grŵp hwn o ddysgwyr wedi trafod syniadau a phenderfynu beth oedd y syniadau a'r brawddegau gorau ar gyfer cynnwys eu gwaith a dyma beth wnaethon nhw ar gyfer y dyddiadur.

Roedd y daflen gynllunio yn gofyn i'r dysgwyr edrych drwy nifer o adnoddau (llyfrau gwybodaeth, eu prosiectau, eu nodiadau o'r fideos, y rhyngwrwyd, taflenni gwaith blaenorol) er mwyn cwblhau pob rhan yn llawn. Roedd hyn yn golygu eu bod yn datblygu nifer o sgiliau o'r FFLIRh.

Ar ôl cwblhau'r daflen gynllunio, fel dosbarth roedden ni wedi ailedrych ar yr enghraifft o ddyddiadur effeithiol ac arweiniodd hyn at greu meini prawf llwyddiant ar gyfer eu dyddiadur eu hunain. Pan oedd y dysgwyr wedi gwneud hyn roedden nhw'n barod i ddechrau ysgrifennu eu dyddiadur gan ddefnyddio'r daflen gynllunio fanwl a'r meini prawf llwyddiant.

### **Beth oedd wedi gweithio'n dda**

Roedd nifer o'r gweithgareddau wedi gweithio'n dda oherwydd roedd y dysgwyr wedi gweld bod diben ar gyfer pob un a bod pob un yn adeiladu ar ei gilydd. Yn ystod ac ar ôl pob gweithgaredd roedd y dysgwyr yn asesu ar gyfer dysgu, gan felly datblygu sgiliau a gwybodaeth.

Roedd defnyddio'r daflen gynllunio yn gywir yn arbennig o bwysig, h.y. er mwyn sicrhau bod y dysgwyr i gyd yn defnyddio'r holl wybodaeth roedden nhw wedi'i chanfod a'i hysgrifennu, i sicrhau bod eu dyddiadur yn llawn gymaint o wybodaeth â phosibl. Felly, er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cynnwys popeth, ac mewn trefn, gofynnwyd iddyn nhw amlygu'r daflen wrth iddyn nhw weithio. Yr her hefyd oedd newid y nodiadau ysgrifenedig blaenorol hyn a chreu brawddegau ystyrllon a diddorol ac felly dyddiadur effeithiol. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i'r dysgwyr drafod a phenderfynu ar gynnwys y brawddegau roedden nhw wedi'u hysgrifennu gyda'u partner a hefyd cyd-gywiro'r brawddegau er mwyn sicrhau bod y sillafu a'r cystrawennau yn gywir. Roedd taflen eiriau ganddyn nhw hefyd i'w helpu.

Ar ddiwedd pob gwrs byddai'r dysgwyr yn gwerthuso eu gwaith ysgrifenedig cyn belled yn erbyn y meini prawf llwyddiant ac os oedden nhw'n sylwi ar unrhyw feysydd i'w gwella roedden nhw'n gwybod y dylen nhw roi sylwi iddyn nhw yn ystod y wers nesaf.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 5 – Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**

#### **Siarad:**

- Esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, e.e. *defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol*.
- Archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl.
- Treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. *am funud, dy fam*.

#### **Gwrando:**

- Gwrando'n astud ar gyflwyniadau [fideo] gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau, e.e. *gwneud nodiadau, crynhoi*.
- Gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr.

#### **Cydweithio a thrafod:**

- Cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, e.e. *cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi*.
- Ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp, e.e. *drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach, cynnig syniadau ychwanegol*.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 5 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**

#### **Strategaethau darllen:**

- Defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun.
- Darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson.
- Defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio), e.e. *dod o hyd i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu*.



- Llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, e.e. *is-benawdau, diagramau*.
- Defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a llawrlwytho yn ôl yr angen.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 5 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**

#### **Darllen a deall:**

- Dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, e.e. *map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses*.
- Adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt.

#### **Ymateb a dadansoddi:**

- Cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol.
- Dehongli'r hyn y mae awdur yn ei feddwl am y pwnc, e.e. *edmygu person hanesyddol, diddordeb yn unig mewn ffeithiau*.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 5 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth**

#### **Ystyr, dibenion, darllenwyr:**

- Ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darlennydd, e.e. *drwy ddefnyddio geirfa addas a dyfeisiau cyflwyno*.
- Ymhelaethu ar y prif syniad(au) drwy roi rhesymau, gwybodaeth ac enghreifftiau ategol.
- Defnyddio technegau wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, e.e. *map meddwl, dilyniannu, gweithgareddau mat bwrdd*.
- Diwygio a gwella'u gwaith ysgrifennu, gan esbonio pam maent wedi gwneud newidiadau.

### **Strwythur a threfn:**

- Defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu, e.e. *is-benawdau*, *penawdau*.
- Defnyddio paragraffau sydd â phrif syniad a manylion perthnasol.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 5 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir**

#### **Iaith:**

- Defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol.
- Defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 5 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir**

#### **Cystrawen, Atalnodi, Sillafu, Llawysgrifen:**

- Defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol, gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos, e.e. *cyn cychwyn ...*, *o wneud hyn, yna ...*
- Defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn tywys y darllynydd mewn brawddegau cymhleth, e.e. *atalnod*, *pwytiau bwled*, *dyfynodau a chollnod i ddynodi perchnogaeth* (e.e. *llyfrau'r bechgyn*).
- Defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. *ffurfiau presennol*, *gorffennol*, *negyddol*.
- Treiglo'n gywir yn arbennig ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. *am funud*, *dy fam*.
- Defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sillafu geiriau a phatrymau cymhleth rheolaidd, e.e. *penderfynu*, *cystadleuaeth*.
- Sillafu mwy o eiriau lluosog, e.e. *-oedd*, *-od*, *-ydd*, a geiriau sy'n dyblu cytseiniaid, e.e. *cynnwys*, yn gywir mewn cyd-destun.
- Cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy, glwm sy'n llifo'n naturiol.

## Astudiaeth achos 3: Datblygu rhifedd mewn gwera dylunio a thechnoleg

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos cynllun gwera athrawes Blwyddyn 5 a'r myfyrio ar y wera ar ôl ei haddysgu.

### Y cynllun gwera

**Cyd-destun:** Gofynnwyd i'r dysgwyr gynllunio tegana gwegamera.

### Amcanion dysgu:

Dylunio a thechnoleg	Rhifedd – Defnyddio sgiliau mesur	Llythrennedd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu manyleb syml (diagram adeiladu) ar gyfer eu cynnyrch.</li> <li>Datblygu a chyfleu eu syniadau dylunio.</li> <li>Gwerthuso syniadau dylunio wrth iddyn nhw ddatblygu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio offer mesur (darllen clorian) gyda 10 rhaniad cyfartal rhwng pob prif uned.</li> <li>Defnyddio trawsnewidiadau syml.</li> <li>Mesur/cyfrifo perimedr.</li> <li>Cofnodi gan ddefnyddio nodiant degol. (Hefyd ystod o sgiliau ymresymu rhifyddol.)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Esbonio gwybodaeth a syniadau.</li> <li>Siarad yn glir gan ddefnyddio iaith ffurfiol.</li> <li>Gwranddo ar eraill (gofyn cwestiynau ac ymateb).</li> <li>Cyfrannu at drafodaethau grŵp, cymryd peth cyfrifoldebau am gwblhau'r dasg yn dda.</li> <li>Adeiladu ar syniadau eraill mewn trafodaethau grŵp a'u datblygu.</li> </ul>

**Meini prawf llwyddiant:** Fel y pennwyd gan y dysgwyr yn ystod y wera flaenorol.

- Lluniadau yn ffitio ar un darn o bapur.
- Ym mhob pâr mae'r lluniadau yr union yr un fath.
- Cadw min ar y pensil.
- Mesur mor gywir â phosibl.

- Tynnu llinellau â phren mesur.
- Ysgrifennu mesuriadau mewn milimetrau (a'u trawsnewid i gentimedrau).
- Cyfrifo perimedr ffrâm.
- Tynnu pen saethau yn fanwl gywir.

**Her a chymorth:** (Tri o ddysgwyr ADY rhifedd, un dysgwr gyda chynllun ymddygiad unigol gyda chymorth un i un.) Bydd dysgwyr yn gweithio mewn paru cydweithredol. Herio'r dysgwyr mwy galluog i ystyried dyfnder y pren wrth gyfrifo faint sydd ei angen.

**Cam cynllunio:** (Gosod y cefndir, pontio o'r hyn y gwyddys yn barod, egluro meini prawf llwyddiant.) Ailadrodd y rheswm dros dynnu diagramau manwl gywir ar bapur sgwâr gan ddefnyddio enghreifftiau o luniadau cychwynnol y dysgwyr (dim i raddfa) fel ysgogiad. I gychwyn sgiliau rhifedd yn y pen heddiw canolbwyntiwyd ar drawsnewid rhwng milimetrau a chentimedrau, ac ailadrodd y gwaith paratoi a wnaed. Cyflwyno'r amcanion dysgu a'r cyd-destun, yn ogystal â'r sgiliau allweddol i'w datblygu. Dysgwyr i alw i gof meini prawf llwyddiant ddoe. Cyflwyno'r daflen dasg a thrafod.

**Cam datblygu:** (Gosod yr her, gwaith grŵp, cyfleoedd ymyrryd, trafodaeth dosbarth – gwranddo ar ei gilydd a chynnig sylwadau, asesu gan gyfeodion.) Mae'n rhaid i'r dysgwyr ystyried sut y byddan nhw'n adeiladu ffrâm o faint addas i gynnal y gwegamerâu y maen nhw wedi dewis eu defnyddio, yna trosglwyddo eu syniadau i bapur sgwâr ar ffurf diagram manwl gywir, maint go iawn. Esbonio bod camgymeriadau a'r angen i adolygu cynlluniau i'w disgwyl. Gellir cwblhau'r daflen dasg wrth i'r wers fynd ymlaen, a dylid gwneud cyfeiriadau rheolaidd at feini prawf llwyddiant.

Mae goleuadau traffig yn cael eu defnyddio yn ystod y cam hwn i fonitro cynnydd a sefydlu pwy all fod angen mwy o gymorth gyda meini prawf llwyddiant penodol.

Aros i rannu enghreifftiau da wrth i'r wers fynd yn ei blaen ac atgoffa am feini prawf llwyddiant lle y bo angen. Hefyd rhannu a thrafod unrhyw broblemau a wynebir (ac arwyddocâd dyfnder y pren i'w ddefnyddio ar gyfer ffrâm y tegan gwegamera – dysgwyr mwy galluog a thalentog).

**Cam myfyrio:** (Beth mae'r dysgwyr wedi'i ddarganfod/eu dulliau gweithio, beth maen nhw wedi'i ddysgu oddi wrth ei gilydd, cysylltu yn ôl i feini prawf llwyddiant, goleuadau traffig i ddarganfod sut mae'r ddealltwriaeth wedi newid.) Dewis dau neu dri phâr i rannu ac esbonio eu gwaith ar y cam hwn. Rhoi cyfleoedd ar gyfer asesu gan gyfoedion, unwaith eto mewn perthynas â meini prawf llwyddiant penodol, a chwestiynu gan gyfoedion os ydyn nhw'n teimlo bod angen eglurhad pellach. Cynnig adborth byr gan athrawon ym mhob achos. Trafod y camau nesaf a sut y bydd y diagramau wedi'u cwblhau yn helpu i adeiladu'r tegan.

Trafod sefyllfaoedd/enghreifftiau eraill lle y gallai sgiliau rhifedd a dylunio a thechnoleg a ddatblygwyd heddiw fod yn ddefnyddiol. Beth allai fod y camau nesaf yn eu datblygiad o'r sgiliau hyn?

### **Myfyrio'r athrawes**

Roedd yr athrawes wedi myfyrio ar y wers a daeth i'r casgliadau canlynol.

- Gwahanu amcanion a chyd-destun yn sicrhau bod y sgiliau mesur sy'n cael eu datblygu yn cael eu gweld fel sgiliau nad ydyn nhw bob amser yn gysylltiedig â dylunio a thechnoleg, ond yn drosglwyddadwy. Mae'r amcanion a'r cyd-destun yn cael eu hegluro i'r dysgwyr ar ddechrau'r wers.
- Mae'n bwysig i ddysgwyr sefydlu ble ydyn nhw gyda'u dysgu ar ddechrau'r wers, a beth yw eu targedau. Mae pennu meini prawf llwyddiant yn helpu'r dysgwyr drwy weithredu fel rhestr wirio wrth iddyn nhw symud dryw'r wers, gan roi iddyn nhw deimlad o annibyniaeth yn ogystal â llwyddiant wrth iddyn nhw gyrraedd eu nod. Mae hefyd yn hoelio sylw ar y sgiliau penodol sy'n cael eu datblygu (yn yr achos hwn sgiliau mesur sydd yn eu tro yn cefnogi datblygiad sgiliau dylunio a thechnoleg).
- Defnyddir goleuadau traffig yng nghanol y wers yn hytrach nag ar y diwedd, ac yn erbyn sgiliau rhifedd penodol fel y pennir yn y meini prawf llwyddiant. Yna gall gwaith gael ei hunanasesu neu ei asesu gan gyfoedion gydag amser o hyd yn y wers i roi cymorth os oes angen, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o ddysgwyr yn gwneud cynnydd ac ymgorffori sgiliau rhifedd yn llwyddiannus yn eu gwaith dylunio a thechnoleg.

- Darperir cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd drwy drafod a chwestiynu. Drwy drafod byddwn yn disgwyl gallu mynd at unrhyw grŵp, ac i unrhyw aelod o'r grŵp hwn esbonio sut mae eu gwaith yn datblygu. Wrth rannu eu syniadau â'r dosbarth mae'r gwrandawyr yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau er mwyn egluro neu i gael manylion pellach ar y diwedd, a dylai'r cyflwynwyr allu ymateb yn briodol.
- Rhoddir amser i fyfyrion ar ddiwedd y wers sy'n cynnwys pennu llwyddiant, unwaith eto yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol. O ganlyniad mae'r dysgwyr yn cael mwy o ddealltwriaeth o sut y maen nhw wedi symud ymlaen gyda'u dysgu. Mae hyn yn cynnwys sut mae eu sgiliau rhifedd a dylunio a thechnoleg wedi datblygu, yn ogystal â sut mae'r sgiliau rhifedd wedi cyfrannu at eu llwyddiant mewn gwrs dylunio a thechnoleg. Atgyfnerthir hyn drwy drafod y camau nesaf a thrwy gysylltu eu dysgu o'r wers hon â sefyllfaoedd eraill lle y gallai'r sgiliau rhifedd a dylunio a thechnoleg a ddatblygwyd fod yn ddefnyddiol.

## **Astudiaeth achos 4: Datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ym Mlynnyddoedd 5 a 6**

Yn yr astudiaeth achos hon, mae'r ysgolion wedi datblygu ymagwedd thematig, drawsgwricwlaidd at ddysgu ac o ganlyniad mae prosiectau sgiliau amrywiol wedi cael eu cynhyrchu gan ddosbarthiadau ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Yma, ceir rhai o'r amrywiaeth o wersi sy'n dangos cysylltiadau â'r FfLIRh.

**Ymchwiliad gwyddonol:** Mae'r Haul ar ei bwynt uchaf yn yr awyr ganol dydd. Ydy hynny'n gywir ac a yw'r cysgodion hwyaf neu fyrraf ar yr adeg hon?

Cafodd dysgwyr Blwyddyn 6 y cwestiynau uchod i gynllunio ymchwiliad. Yn ystod y broses gynllunio roedd pob grŵp wedi:

- dewis yr offer y bydden nhw'n ei ddefnyddio
- penderfynu beth y bydden nhw'n ei newid/ei gadw yr un fath
- penderfynu beth y bydden nhw'n ei fesur a sut y bydden nhw'n cyflawni hyn – pa offer
- ystyried sut y bydden nhw'n cynnal yr arbrawf – dull.

**Bwriadau dysgu:** Cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth grŵp i gyflawni'r canlyniadau cytunedig; defnyddio nodweddion adroddiad gwyddonol i gofnodi; mesur yn fanwl gywir; cofnodi data yn y ffurf fwyaf priodol.

Yn unigol, roedd rhaid i'r dysgwyr benderfynu beth fyddai'r ffordd orau o gyflwyno'r canlyniadau hyn. Pa ddull o gyflwyno data fyddai'r mwyaf priodol? Penderfynodd nifer o'r dysgwyr ddefnyddio graff llinell a/neu dabl. Dewison nhw pa raddfa y bydden nhw'n ei defnyddio. Penderfynodd y rhan fwyaf o'r grwpiau i ddefnyddio tapiau mesur a mesur mewn centimedrau a milimetrau ar gyfer mesuriadau mwy penodol.

## Sgiliau FfLIRh a arsylwyd

Llafaredd	Ysgrifennu	Rhifedd
<p>Yn ystod y cam cynllunio, roedd y dysgwyr wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth grŵp i gynhyrchu cynllun ymchwiliad da</li> <li>dilyn i fyny pwyntiau mewn trafodaethau grŵp, gan ddangos eu bod yn cytuno neu'n anghytuno a rhoi rhesymau.</li> </ul>	<p>Wrth ysgrifennu'r cynllun, roedd y dysgwyr wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio nodweddion y ffurf a ddewiswyd – adroddiad gwyddonol ar yr ymchwiliad a wnaed</li> <li>defnyddio pwyntiau bwled ac is-benawdau i drefnu'n effeithiol sut y cyflwynir data a syniadau</li> <li>cynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc-benodol.</li> </ul>	<p>Yn ystod y gweithgaredd roedd y dysgwyr wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cofnodi mesuriadau mewn gwahanol ffyrdd, e.e. 16.3cm = 163mm</li> <li>cynrychioli data gan ddefnyddio tablau a graffiau llinell</li> <li>canfod a dehongli gwybodaeth o'u graffiau.</li> </ul>

**Asesu ar gyfer dysgu:** Cwestiynu/gwaith grŵp.

### Cysylltiadau â'r FfLIRh:

- Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – Cydweithio a thrafod.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth – Ystyr, dibenion, darllenwyr.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir – Iaith.
- Rhifedd – Defnyddio sgiliau mesur – Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd.
- Rhifedd – Defnyddio sgiliau data – Casglu a chofnodi data, Cyflwyno a dadansoddi data, Dehongli canlyniadau.



## Cyfrifiadau teithio i'r gofod

**Bwriad dysgu:** Gofyn cwestiynau mathemategol.

Mewn parau, roedd y dysgwyr wedi llunio cwestiynau mathemategol am gost teithio i'r gofod fel twrist. Cawson nhw eu hannog i lunio cwestiynau a fyddai'n eu galluogi i amcangyfrif, talgrynnu a defnyddio perthnasoedd rhif, e.e. 'Sawl gwaith allwn ni fynd i Seland Newydd am yr un pris â thaith i'r gofod?'. Cawson nhw ryddid i ddewis dull i gofnodi eu hatebion. Dewiswyd cymysgedd o gridiau GED<sup>15</sup>, CwAMFf<sup>16</sup>, trafodaeth a mapiau meddwl.

Gan fod y rhifau dan sylw mewn cannoedd ar filoedd, roedd hefyd yn bwysig i ddysgwyr gydnabod ei bod hi'n briodol i ddefnyddio cyfrifiannell.

## Sgiliau FfLIRh a arsylwyd

### Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif – Amcangyfrif a gwirio

Mae dysgwyr yn arddangos amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys strategaethau pen ac ysgrifenedig. Maen nhw'n defnyddio'r gwrthdro yn hyderus i wirio eu cyfrifiadau ac yn defnyddio talgrynnu i amcangyfrif.

- Gwirio atebion gan ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro.
- Amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, 100, 1000 neu gyfanrif agosaf.

<sup>15</sup> Mae grid GED yn tynnu sylw at wybodaeth flaenorol a gellir ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer ymchwiliadau. Mae'n dangos meysydd o ddiddordeb, yn hyrwyddo sgiliau ymchwil a gellir ei ddefnyddio ar gyfer asesu. Penawdau'r colofnau yn y grid yw 'Beth ydw i'n gwybod am y pwnc hwn? (G)', 'Beth ydw i eisiau gwybod? (E)', 'Beth ydw i wedi dysgu? (D)'.

<sup>16</sup> CwAMFf – 'CWESTIWN: Beth ydw i eisiau gwybod? (Cw)', 'ATEB: Beth ydw i wedi'i ganfod? (A)', 'MANYLION: Pa ffeithiau diddorol a manylion ychwanegol ydw i wedi'u darganfod? (M)', 'FFYNHONNELL: Ble oeddwn i wedi canfod fy ngwybodaeth (Ff)'.

**Asesu ar gyfer dysgu:** Gofyn cwestiynau.

**Cysylltiadau â'r FfLIRh:**

- Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif – Amcangyfrif a gwirio.
- Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif – Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig.
- Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif – Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau: Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 miliwn a rhifau i 3 lle degol.
- Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif – Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau: Lluosi a rhannu rhifau â 10 a 100.

**Lluniadu planedau wrth raddfa**

Mewn partneriaid siarad, cafodd dysgwyr eu herio i luniadu planedau wrth raddfa. Gofynnwyd iddyn nhw drafod y fethodoleg a'r ymagwedd y gallen nhw eu defnyddio. Cytunodd pawb fod angen iddyn nhw gael hyd i ddiamedrau'r planedau. Roedd rhai yn meddwl y dylai'r rhain gael eu talgrynnu.

Cafodd defnyddio cwmpawd ei fodelu drwy ddefnyddio'r delweddwr cyn i'r dysgwyr ddechrau penderfynu ar raddfa eu hunain. Drwy gael seibiau rheolaidd, roedd y dysgwyr wedi adolygu eu cynnydd drwy siarad a thrafod. Dechreuodd nifer gyda'r planedau llai a sylweddoli ar ôl cyrraedd y planedau mwyaf yn unig na fyddai'n bosibl eu lluniadu wrth yr un raddfa. Ar yr adeg hon, roedd yn bwysig i'r athro ofyn nifer o gwestiynau 'Beth os ...?', 'Allen ni drïo ...?', 'Ffordd arall bosibl fyddai i ...'. Mae'r ysgogiadau hyn yn cael eu harddangos ar wal yn yr ystafell ddosbarth.

**Asesu ar gyfer dysgu:** Gofyn cwestiynau/siarad yn y dosbarth/hunanasesu ac asesu gan gyfoedion.

**Cysylltiadau â'r FfLIRh:**

- Rhifedd – Datblygu ymresymu rhifyddol – Cynrychioli a chyfathrebu: Dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas.

## Siart cylch – cymharu maint planedau

**Bwriadau dysgu:** Cyflwyno gwybodaeth yn y ffordd fwyaf priodol.

Yn dilyn y gwaith ar luniadu'r planedau, roedd grŵp bach o ddysgwyr mwy galluog wedi cydnabod, drwy ymarfer myfyrio (triongl myfyrio), y gallai fod yn anodd adnabod pa blaned oedd yr un mwyaf drwy gael cip cyflym arnyn nhw. Felly cawson nhw eu herio i gael hyd i ateb: 'Sut gallwch chi ddangos, yn syml ac yn effeithiol, meintiau perthynol y planedau?'.

Gan ddefnyddio sgiliau ymresymu, roedden nhw wedi penderfynu bod graff neu ddiagram yn rhoi llun sydyn defnyddiol o'r sefyllfa. Roedden nhw wedi ymchwilio i wahanol fathau o graffiau gan ddefnyddio rhaglen daenlenni gyfrifiadurol a phenderfynu mai siart cylch oedd y cyfrwng gorau.

Roedd angen mathemateg lefel uchel iawn i droi'r data yn siart cylch, ond roedd yr holl strategaethau a ddefnyddiwyd yn strategaethau y dysgwyr eu hunain, gyda'r athro yn ysgogi'r broses ryw ychydig. Pan oedd y dysgwyr wedi llunio eu siart cylch eu hunain roedden nhw wedi gwneud un arall gan ddefnyddio'r rhaglen daenlen.

## Sgiliau FfLIRh a arsylwyd

### **Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif: Casglu a chofnodi data, Cyflwyno a dadansoddi data, Dehongli canlyniadau**

- Cyflwyno data drwy ddefnyddio:
  - rhestrau, siartiau cyfrif, tablau, diagramau a thablau amllder
  - siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell a graffiau trawsnewid.
- Echdynnu a dehongli gwybodaeth o ystod gynyddol o ddiagramau, amserlenni a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch).
- Defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i ddisgrifio set ddata.

**Asesu ar gyfer dysgu:** Annog dysgu annibynnol.

**Cysylltiadau â'r FfLIRh:**

- Rhifedd – Datblygu ymresymu rhifyddol – Cynrychioli a chyfathrebu: Dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas.
- Rhifedd – Defnyddio sgiliau data – Casglu a chofnodi data, Cyflwyno a dadansoddi data, Dehongli canlyniadau: Cyflwyno data drwy ddefnyddio:
  - rhestrau, siartiau cyfrif, tablau, diagramau a thablau amllder
  - siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell a graffiau trawsnewid.

**Adnodd bwrdd rhyngweithiol**

**Bwriadau dysgu:** Amcangyfrifo a delweddu maint wrth fesur; gwneud arsylwadau gofalus a mesuriadau manwl gywir gan ddefnyddio offer TGCh.

Wrth ymchwilio a gwneud gwaith ymchwil i'r planedau yng nghysawd yr haul, cafodd dysgwyr Blwyddyn 5/6 eu herio i archwilio meintiau perthynol y planedau. Cafodd gweithgaredd bwrdd rhyngweithiol ei awduro i gefnogi'r dysgwyr gyda'u gwaith rhifedd ar 'raddfa' yn ogystal â'u dealltwriaeth o 'safleoedd perthynol a nodweddion allweddol y planedau'. Cafodd y dysgwyr ryddid i ddefnyddio'r adnodd ar gyfer eu dysgu eu hunain; felly cafodd yr amcanion eu gwahaniaethu yn ôl canlyniad.

Gall y bwrdd rhyngweithiol gael hyd at chwe dysgwr yn cydweithio gyda'u set eu hunain o offer. Gan sefyll o gwmpas y bwrdd, mae'r dysgwyr yn gweld cefndir du gyda delweddu o'r haul a'r wyth planed – i gyd wedi'u cymysgu. Ceir labeli testun hefyd ar gyfer pob un o'r planedau. Gall y planedau gael eu symud o gwmpas y bwrdd drwy gyffwrdd â nhw, a gellir newid eu maint. Gall pob dysgwr ddefnyddio eu 'pecyn cymorth' ei hun. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys:

- porwr gwe – sy'n cynnig modd i'r dysgwyr chwilio am ffeithiau, ffigurau a delweddu o'r planedau
- pad rhifau – sy'n eu galluogi i anodi ar y bwrdd, e.e. diamedrau'r blaned, pellterau rhwng y planedau
- cyfrifiannell
- pren mesur – i'w ddefnyddio i newid maint y planedau wrth raddfa.

**Asesu ar gyfer dysgu:** Hyrwyddo dysgu annibynnol.

**Cysylltiadau â'r FfLIRh:**

- Rhifedd – Datblygu ymresymu rhifyddol – Adnabod prosesau a chysylltiadau: Amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir.
- Rhifedd – Datblygu ymresymu rhifyddol – Cynrychioli a chyfathrebu: Dewis a llunio . . . diagramau . . . a chanddynt raddfeydd addas.

Ar ei symlaf, mae'r gweithgaredd wedi cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ar sail un i un) i roi'r planedau yn eu trefn. Ar ei fwyaf heriol, defnyddiodd grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 5 y porwr gwe i ymchwilio i ddiamedrau'r planedau. Roedden nhw wedi talgrynnu'r mesuriadau ac anodi'r diagram. Yna roedden nhw wedi newid maint y blaned drwy ddefnyddio'r pren mesur yn y pecyn cymorth. Drwy gydweithio, roedden nhw'n gallu cynnig atebion i'r problemau roedden nhw wedi dod ar eu traws megis ffitio pob un o'r planedau ar y bwrdd (lleihau'r raddfa).

Ar ôl gwneud hyn, penderfynon nhw archwilio'r pellter rhwng y planedau ac addasu'r gweithgaredd yn ôl yr angen. Roedden nhw'n gallu cwblhau cysawd yr haul cyfan drwy wneud hyn, ac felly cawson nhw eu cynghori i gynyddu'r raddfa a chanolbwyntio ar y berthynas rhwng dwy blaned drws nesaf i'w gilydd. Yna roedden nhw wedi cymharu parau o blanedau.

Ym mhob achos, mae'r dysgwyr wedi cael eu cyffroi a'u hysbrydoli gan y gweithgaredd ac wedi dangos dealltwriaeth gadarn o'r prif gysyniadau dan sylw. Yn ogystal â bodloni amcanion penodol y cwricwlwm, mae wedi hyrwyddo cydweithio a datrys problemau a chreu cyfleoedd i'r dysgwyr gyfeirio eu dysgu eu hunain.

**Dylunio gêm fwrdd y gofod**

**Bwriadau dysgu:** Gofyn cwestiynau cysylltiedig â'r pwnc; defnyddio geiriau ac ymadroddion pwnc-benodol; defnyddio nodweddion a chynllun i wella cyflwyniad ac eglurder.

Gan weithio mewn parau neu grwpiau o dri, gofynnwyd i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 ddylunio gêm fwrdd oedd yn gofyn ac yn ateb cwestiynau penodol am y Ddaear a thu hwnt – meysydd y buon nhw'n astudio yn eu gwersi gwyddoniaeth. Er enghraifft,

'Sawl diwrnod ydy hi'n cymryd i'r Ddaear droi o gwmpas yr Haul?', 'Faint o'r gloch fyddai'r cysgodion ar eu byrraf?', 'Pa blaned sydd agosaf at yr Haul?'

Byddai'r gemau hyn yn cael eu defnyddio i helpu dysgwyr yn y dyfodol yn y grŵp oedran hwn i astudio'r Ddaear a thu hwnt mewn ffordd ddiddorol, addysgiadol a difyr.

Ym mhob cam, gofynnwyd i'r dysgwyr adolygu'r meini prawf llwyddiant i sicrhau'r cynnyrch terfynol gorau posibl.

Cafwyd 'seibiau' cyson er mwyn adolygu beth oedd y dysgwyr yn teimlo oedd eu cryfderau a beth oedden nhw'n ei wneud i ddatrys anawsterau. Er enghraifft, pa ffynonellau oedden nhw'n eu defnyddio a sut gallen ni sicrhau bod plant yn ysgrifennu'r un atebion ar gyfer pob cwestiwn? (Yn y diwedd penderfynodd rhai dysgwyr ddefnyddio canllaw astudio i sicrhau eu bod yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn dilyn y meini prawf llwyddiant.)

**Asesu ar gyfer dysgu:** Partneriaid dysgu/seibiau/adolygu meini prawf llwyddiant/asesu gan gyfoedion a hunanasesu.

#### **Cysylltiadau â'r FfLIRh:**

- Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – Siarad.
- Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – Gwranddo.
- Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau – Cydweithio a thrafod.
- Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth – Strategaethau darllen.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth – Ystyr, dibenion, darllenwyr.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth – Strwythur a threfn.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir.

## Sgiliau FfLIRh a arsylwyd

Llafaredd	Ysgrifennu
<p>Roedd angen i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>fynegi materion a syniadau yn eglur gan ddefnyddio geirfa arbenigol yn ystod y cam cynllunio a dylunio</li> <li>ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a'r camau nesaf (y cam cynllunio)</li> <li>cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth grŵp i gyflawni'r deilliannau cytunedig (y cam cynllunio).</li> </ul>	<p>Roedd gofyn i'r dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>addasu arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa Blwyddyn 6 yn y dyfodol a sicrhau bod y diben (i ddarparu cynnwys pwnc ar y Ddaear a thu hwnt) wedi'i gyflawni</li> <li>golygu, myfyrio a gwella eu hysgrifennu yn annibynnol – oedden nhw wedi cofio marciau cwestiwn ac oedd y sillafu yn gywir yn ôl gofynion y meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg</li> <li>defnyddio nodweddion a chynllun i wella cyflwyniad ac ychwanegu eglurder – sut oedden nhw wedi gwahanu eu cwestiynau a'u hatebion (gofynnwyd i'r dysgwyr fyfyrion ar sut y bydden nhw'n cyflawni hyn yn y meini prawf llwyddiant)</li> <li>defnyddio geiriau ac ymadroddion pwnc-benodol.</li> </ul>
Darllen	
<p>Roedd dysgwyr wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen a llithr ddarllen am wybodaeth</li> <li>dewis y pwyntiau hanfodol.</li> </ul>	

## Asesu gan gyfoedion a hunanasesu

**Bwriadau dysgu:** Trafod deilliannau cytunedig drwy gwestiynu a sylwadau; cytuno/anghytuno â gwerthusiadau asesu gan gyfoedion; myfyrio, golygu a gwella eu gwaith.

Yna gofynnwyd i'r dysgwyr ddylunio gêm ofod yn seiliedig ar eu cwestiynau am y Ddaear a thu hwnt. Roedd rhaid iddyn nhw ddarparu rhestr o offer a deunyddiau hefyd y byddai eu hangen arnyn nhw i gynhyrchu gêm a fyddai'n para o leiaf blwyddyn a thu hwnt. At hynny, roedd rhaid iddyn nhw ddarparu rhestr o gyfarwyddiadau a fyddai'n gwneud amcanion y gêm yn eglur iawn.

Roedd y meini prawf llwyddiant yn datgan y byddai'n rhaid i'r gêm:

- fod yn offeryn addysgu/adolygu ar y cynnwys pwnc cywir
- bod yn gêm fywiog a lliwgar
- bod yn gêm wydn ac ni fyddai'n chwalu'n gyflym
- ychwanegu elfen o hwyl at y broses ddysgu hefyd.

Ar ôl eu drafft cyntaf o'r gêm, ac yn seiliedig ar olwg, gwydnwch a sut byddai'r dysgwyr oedd yn chwarae'r gêm yn cyrraedd eu nod, roedd partneriaeth arall yn y dosbarth wedi myfyrio ar eu gwaith a'u gwerthuso. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis dau bwynt cadarnhaol am y dyluniad gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant fel eu canllaw i gynnig sylwadau ar y ddau bwynt. Yn ogystal, roedd rhaid iddyn nhw ysgrifennu un pwynt i'w gwella hefyd yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant.

Roedd trafodaeth yn union ar ôl hynny rhwng y partneriaethau wedi egluro a rhoi cyd-destun pellach ar gyfer y sylwadau a wnaed am eu cynlluniau er mwyn i'r ddau bartner allu gwella eu gwaith ymhellach yn y cam nesaf.

Ar ddiwedd y broses ddylunio, roedd pob partneriaeth wedi myfyrio ar eu cynnydd hyd yma (beth oedden nhw'n meddwl am eu dyluniad), yn ogystal â'r gwelliannau roedden nhw wedi'u gwneud i'w gwaith a sut roedd y newidiadau hyn wedi cyfoethogi eu gwaith.

### Sgiliau FfLIRh a arsylwyd

Llafaredd	Ysgrifennu
<p>Roedd dysgwyr Blynnyddoedd 5 a 6 wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• mynegi materion a syniadau yn eglur yn ystod y cam gwerthuso</li><li>• ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau oedd yn canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a'r camau nesaf – y cam gwerthuso (asesu gan gyfeodion a hunanasesu)</li></ul>	<p>Roedd dysgwyr Blwyddyn 6 wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• addasu'r arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa a'r pwrpas</li><li>• golygu, myfyrio a gwella eu gwaith yn annibynnol</li><li>• defnyddio nodweddion a chynlluniau i wella'r ffordd o gyflwyno eu syniadau – sut byddan nhw'n cyflwyno rhestr o gyfarwyddiadau yn glir, pa nodweddion cyflwyniadol ddylen nhw eu dewis</li></ul>



Llafaredd	Ysgrifennu
<ul style="list-style-type: none"> <li>cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth grŵp i gyflawni'r deilliannau cytunedig (y cam ail-werthuso)</li> <li>dilyn i fyny pwyntiau mewn trafodaethau grŵp, gan ddangos eu bod yn cytuno neu'n anghytuno a rhoi rhesymau – y cam gwerthuso (asesu gan gyfoedion a hunanasesu).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio geirfa bwnc-penodol</li> <li>canolbwyntio ar gyflwyniad taclus, a sillafu ac atalnodi cywir.</li> </ul>

### Defnyddio padlet<sup>17</sup>

**Bwriadau dysgu:** Gofyn cwestiynau (Blwyddyn 5); myfyrion ar ddysgu (Blwyddyn 6).

Mewn parau, roedd dysgwyr ym Mlynnyddoedd 5 a 6 wedi creu padlet dosbarth i ofyn cwestiynau ac arddangos atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd. Er enghraifft, gofynnodd un dysgwr 'Sawl gwaith fyddai'n rhaid i chi fynd i Awstralia a nôl i deithio yr un pellter â mynd i'r lleud?'.

Yn y cyfamser, cafodd y cwestiwn 'Pa mor bell oedd Apollo 13 wedi teithio cyn i'r tanc ocsigen ffrwydro?' ei ateb gan blentyn arall ar badlet gwahanol: 'Dwi wedi dysgu bod Apollo 13 wedi teithio 200,000 o filltiroedd o'r Ddaear.'

Roedden nhw wedi gwirio eu hatebion drwy edrych ar ffynonellau dibynadwy a chymharu gwybodaeth ar dudalennu gwe gwahanol.

<sup>17</sup> Mae padlet yn rhaglen rhyngwyd sy'n cynnig ffordd hawdd i bobl fynegi eu syniadau am bwnc cyffredin. Mae'n gweithio fel taflen o bapur ar-lein lle y gall pobl roi unrhyw gynnwys (e.e. delweddau, fideos, dogfennau, testun) unrhyw le ar y dudalen, ar y cyd ag unrhyw un arall, o unrhyw ddyfais.

## Sgiliau FfLIRh a arsylwyd

Darllen	Ysgrifennu
<p>Roedd dysgwyr ym Mlynnyddoedd 5 a 6 wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen a llithr ddarllen am wybodaeth</li><li>• dewis y pwyntiau hanfodol</li><li>• asesu ansawdd a dibynadwyedd yr wybodaeth ar dudalennau gwe, gan ystyried ei tharddiad a dilysu cywirdeb.</li></ul>	<p>Defnyddiodd y dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• nodweddion a chynllun oedd wedi'u llunio'n eglur i wella eu syniadau</li><li>• geiriau ac ymadroddion pwnc-benodol megis 'hyd y daith', 'tanc ocsigen', 'man glanio agosaf' ac 'yr Apollo afluwyddiannus cyntaf'.</li></ul>

**Asesu ar gyfer dysgu:** Gofyn cwestiynau, TGCh.

### Cysylltiadau â'r FfLIRh:

- Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth – Strategaethau darllen.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth – Strwythur a threfn.
- Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir – laith.

## Astudiaeth achos 5: Datblygu llythrennedd mewn gwern hanes ym Mlwyddyn 9

Yn yr astudiaeth achos hon mae athro Blwyddyn 9 yn disgrifio gwern hanes, gan dynnu sylw at y cysylltiadau i ddatblygu llythrennedd ar y lefel briodol. Tra bo hyn, mewn sawl ffordd, yn debyg i'r wern hanes yn Astudiaeth achos 2 (gweler tudalen 52), mae'n bwysig nodi bod yr athro yn rhoi sylw i sgiliau llythrennedd ar lefel llawer uwch.

**Cyd-destun:** Yn y wern hon roedd rhaid i'r dysgwyr gasglu a chymharu tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau i ddeall yr amodau yn y ffosydd a brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf er mwyn iddyn nhw allu ysgrifennu llythyr gan filwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf at ei deulu a gwella eu gwaith.

**Gweithgaredd cychwynnol:** Cyflwyno'r pwnc a'r strategaethau darllen a gaiff eu defnyddio. Dangoswyd darn bach o lythyr i'r dysgwyr yn hysbysu rhiant bod ei fab wedi marw, yna gofynnwyd 'O ble ddaw'r darn yma?'. Roedd y dysgwyr wedi edrych ar y ddogfen am 10 eiliad yna rhannu eu syniadau. Trafodwyd enghreifftiau o'r geiriau roedd y dysgwyr wedi'u dewis i gefnogi eu syniadau o'r hyn roedd dan sylw yn y testun. Roedd hyn wedi creu ychydig o drafodaeth ac roedd rhai o'r dysgwyr wedi dod i gasgliadau gwahanol o'r un geiriau/ymadroddion, felly roedden ni'n gallu trafod y syniad o luosogrwydd a'r angen i gael gwybodaeth gyd-destunol i ychwanegu dealltwriaeth at yr hyn oedd yn cael ei ddarllen.

Sefydlwyd bod y terfyn amser yn sicrhau bod rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio sgiliau cip ddarllen a dangoswyd beth mae'r sgil hwnnw yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

Yna dangoswyd ail ddarn, mwy o faint o'r un ddogfen a chafodd y dysgwyr eu herio i gael hyd i dri gair oedd yn cefnogi eu dehongliad.

Sefydlwyd bod y dasg hon yn defnyddio technegau llithr ddarllen.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored lle roedd y dysgwyr wedi archwilio a disgrifio'r gwahaniaeth yn y ddwy broses. Ar gyfer y drafodaeth hon defnyddiwyd cynhyrchydd haprifau er mwyn gallu gofyn i unrhyw ddysgwr ateb cwestiwn oedd yn cyfateb â'r rhif a roddwyd iddyn nhw (techneg asesu ar gyfer dysgu i annog cynnwys pob dysgwr – gellir defnyddio ffyn lolipop neu rywbeth tebyg). Yn ystod y drafodaeth cafodd pob ymateb ei ddilyn gydag ail gwestiwn i ddysgwr newydd yn gofyn a oedd ei farn yr un fath neu'n wahanol (strategaeth 'neidio' asesu ar gyfer dysgu).

### Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 9 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth

#### Strategaethau darllen:

- Defnyddio ystod o strategaethau, e.e. *darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl.

### Gweithgaredd 1: Datblygu ac atgyfnerthu strategaethau darllen i gael dealltwriaeth well o gynnwys y deunydd

Cafodd y dysgwyr ddau llythyr, un yn esbonio erchyllterau'r rhyfel, a'r llall oedd yn llawer mwy gofalus a llawen. Roedd un wedi'i ddyddio 1916, a'r ail wedi'i ddyddio 1915. Cafodd y ddau eu hysgrifennu at rieni.

Trefnwyd y dosbarth yn grwpiau o bump neu chwech a chafodd pob dysgwr grid gyda 30 o flychau arno. Eu tasg oedd crynhoi un o'r llythyrau i 30 o eiriau (un gair ym mhob blwch).

Yna roedd y dysgwyr wedi gweithio o fewn eu grwpiau bwrdd i gynhyrchu crynodeb 30 gair o'r llythyr yr oedd pob un o'r grŵp wedi cytuno ei fod yn dangos elfennau allweddol o'r gwreiddiol. Roedd hyn wedi arwain at drafodaeth am y broses gwneud penderfyniadau a ddigwyddodd ar bob bwrdd ar lefel grŵp (pam oedd y grŵp wedi blaenoriaethu rhai darnau o wybodaeth yn hytrach na darnau eraill?), gan sefydlu bod blaenoriaethu gwybodaeth a syniadau yn elfen allweddol o ddarllen.

### Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 9 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

#### Ymateb a dadansoddi:

- Cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn hybu dealltwriaeth ddofn, e.e. *o achosion, canlyniadau, patrymau*, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol.

## **Gweithgaredd 2: Llithr ddarllen deunyddiau ar gyfer gwrthddywediadau a defnyddio'r gwrthddywediadau hynny i ddatblygu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol**

Mewn parau, roedd y dysgwyr wedi defnyddio trefnwyr graffig i ddelweddu gan gynrychioli'r gwrthddywediadau ym mhob testun, edrych ar feysydd allweddol megis y tywydd/amodau/bwyd/ffrindiau/marwolaeth/brwydrau/emosiynau/meddwl am y dyfodol.

Yna cafwyd trafodaeth dosbarth a gofynnwyd i'r dysgwyr awgrymu damcaniaethau i esbonio pam bod un o'r llythyrau yn weddol gadarnhaol tra bo'r llall yn negyddol iawn. Unwaith eto defnyddiwyd cynhyrchwyr haprifau a strategaethau 'neidio'. Mae hwn yn elfen allweddol o'r wers i atgyfnerthu dysgu blaenorol am y brwydrau a chronoleg y rhyfel a sut oedd hyn wedi cyfrannu at amodau a morâl.

Daeth y drafodaeth i ben drwy sefydlu mai llythyr un sy'n fwyaf tebygol o fod yn fwyaf realistig fel dogfen hanesyddol.

### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 9 – Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm – Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**

#### **Ymateb a dadansoddi:**

- Gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadl.
- Adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu.
- Gwerthuso pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw testunau.

## **Gweithgaredd 3: Mapio meini prawf llwyddiant ar gyfer ysgrifennu**

Mewn grwpiau gofynnwyd i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiwn 'Pe byddech chi'n ysgrifennu eich llythyr realistig eich hun o'r ffrynt, pa nodweddion a syniadau fyddai'n rhaid i chi eu cynnwys i sicrhau ei fod yn llwyddiannus?'.

Roedd dysgwyr wedi anodi llythyr un i labelu'r nodweddion y maen nhw'n meddwl sy'n ei wneud yn fwyaf realistig ac yn fwyaf dilys, yna fel dosbarth trafodwyd pa dystiolaeth roedden nhw wedi'i chasglu a pham. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar helpu dysgwyr i adnabod dyfyniadau penodol o'r llythyr a thrafod pam eu bod yn effeithiol, e.e. nodwyd bod 'erchyll' ac 'arswydus' yn ansoddeiriau emosiynol.

Fel dosbarth cytunwyd ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer eu llythyr eu hunain (strategaeth asesu ar gyfer dysgu o gynnwys dysgwyr i greu meini prawf llwyddiant).

#### **Gweithgaredd 4: Trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd drwy ddarllen a dadadeiladu testun a'i droi'n ddarn o ysgrifennu**

Yna gofynnwyd i'r dysgwyr ysgrifennu hanner gyntaf eu llythyr, ar y ddealltwriaeth y byddai'r broses yn digwydd ar ffurf gweithdy a oedd yn anelu at welliant parhaus, gan sicrhau eu bod yn defnyddio'r meini prawf llwyddiant a gytunwyd ar y bwrdd.

Ar ôl cyfnod penodol o amser, roedd y dysgwyr wedi edrych ar waith ei gilydd i weld pa feini prawf llwyddiant sydd wedi cael eu defnyddio cyn belled (asesu gan gyfoedion asesu ar gyfer dysgu yn erbyn meini prawf cytunedig).

Yna roedd rhaid i'r dysgwyr gynllunio sut roedden nhw'n mynd i ateb y meini prawf llwyddiant oedd yn weddill yn eu hysgrifennu eu hunain.

Roedd yr athrawon wedi rhannu rhai o'r llythyrau roedd y dysgwyr wedi'u dechrau, gan gynnig sylwadau ar y llythyr hyd at y cam hwnnw yn erbyn y meini prawf llwyddiant, a thrafod â'r dosbarth gynllun y dysgwr ar gyfer sut y byddan nhw'n symud i ymgorffori'r meini prawf llwyddiant sy'n weddill, gan wahodd awgrymiadau gan aelodau eraill o'r dosbarth os oedd angen (defnyddio dysgwyr fel adnoddau ar gyfer ei gilydd asesu ar gyfer dysgu).

#### **Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 9 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth**

##### **Ystyr, dibenion, darllenwyr:**

- Cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaedd gwahanol.
- Gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu.
- Gwella'u gwaith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol a'i aiddrafftio.

**Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 9 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Trefnu syniadau a gwybodaeth**

**Strwythur a threfn:**

- Dewis, dadansoddi a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol.

**Cysylltiadau â'r FfLIRh: Blwyddyn 9 – Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm – Ysgrifennu'n gywir**

**Iaith:**

- Defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc.

**Sesiwn lawn: Myfyrio ar sut y gellid gwella'r gwaith**

Gan ddefnyddio haprifau cafodd y dysgwyr eu gwahodd i esbonio sut rodden nhw wedi gwella eu gwaith eu hunain a gofyn i ddysgwyr gwahanol werthuso pa mor effeithiol yr oedd hyn wedi bod. Mae hwn yn faes allweddol i atgyfnerthu dealltwriaeth o'r meini prawf llwyddiant.

## 10. Cyfeiriadau

*Active Learning through Formative Assessment* gan S Clarke (Hodder Education, 2008)

*Assessment for Learning: putting it into practice* gan P Black, C Harrison, C Lee, B Marshall and D Wiliam (OUP, 2003)

*Changing Assessment Practice: Process, Principles and Students* gan J Gardner, W Harlen, L Hayward, G Stobart (Assessment Reform Group, 2008)

*Embedded formative assessment* gan D Wiliam (Solution Tree Press, 2011)

*Formative Assessment: improving learning in secondary classrooms* (OECD, 2005)

*Formative Assessment in the Secondary Classroom* gan S Clarke (Hodder Murray, 2005)

*Mindset: The new psychology of success* gan C S Dweck (Ballantine Books, 2007)

Position Paper on Assessment for Learning o'r Drydydd Cynhadledd Rhyngwladol ar Asesu ar gyfer Dysgu, Dunedin, Sealand Newydd, Mawrth 2009

*Promoting assessment as learning: Improving the learning process* gan R Dann (Routledge Falmer, 2002)

*Testing Times: The uses and abuses of assessment* gan G Stobart (Routledge, 2008)

*Transformative assessment* gan W J Popham (ASCD, 2008)

*Visible Learning: A synthesis of over 800 meta-analyses relating to achievement* gan J Hattie (Routledge, 2009)

### **Dogfennau Llywodraeth Cymru**

*Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* (2013)

[learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124curriculumplanningguidancecy.pdf](http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124curriculumplanningguidancecy.pdf)



*Datblygiad Mathemategol* (2008)

[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation\\_phase/foundationphasepractitioners/mathematicaldevelopment/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/foundationphasepractitioners/mathematicaldevelopment/?skip=1&lang=cy)

*Manteisio i'r eithaf ar ddysgu* (2008)

[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/makingthemostoflearningc/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/makingthemostoflearningc/?skip=1&lang=cy)

*Pam y mae angen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?* (2010)

[www.wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum\\_and\\_assessment/developingthinkingassessment/developthinkingw.pdf?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/developingthinkingassessment/developthinkingw.pdf?lang=cy)

*Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (2008)

[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation\\_phase/parents/carers/childlearn/sevenareas/languagekills/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/parents/carers/childlearn/sevenareas/languagekills/?skip=1&lang=cy)

*Sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008)

[www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/guidanceresources/ensuringconsistency/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/guidanceresources/ensuringconsistency/?skip=1&lang=cy)

*Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth* (2010)

[www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110111howtodevelopcy.pdf](http://www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/110111howtodevelopcy.pdf)

## **Dogfennau Estyn**

*Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen: Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed ar waith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd* (2011)

[www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/228937.8/Lythrennedd%20a'r%20Cyfnod%20Sylfaen%20-%20Medi%202011/?navmap=30,163](http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/228937.8/Lythrennedd%20a'r%20Cyfnod%20Sylfaen%20-%20Medi%202011/?navmap=30,163)

## 11. Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r ysgolion canlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr ac adeiladol i'r astudiaethau achos. Gwerthfawrogir yn fawr eu parodrwydd i roi eu hamser.

Ysgol Bassaleg, Casnewydd

Ysgol Cae Top, Bangor

Ysgol Emmanuel, Rhyl

Ysgol Gynradd Eveswell, Casnewydd

Ysgol Gynradd Pen-y-fai, Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Heol y Mynydd, Sir y Fflint

Ysgol Pen-y-bryn, Bae Colwyn

Ysgol St Julian, Casnewydd

Ysgol Y Rofft, Wrecsam